# DATGANIADAU ARIANNOL COLEG SIR BENFRO

BLWYDDYN YN GORFFEN 31 GORFFENNAF 2023




COLEG Sir Benfro
Pembrokeshire COLLEGE

CYNNWYS

**Adroddiad y Pennaeth** ... 3
Cyflwyniad a Throsolwg ... 3
Adran 1: Datblygu Unigolion Medrus, Creadigol a Llwyddiannus ... 6
Adran 2: Darparu Dysgu ac Addysgu Rhagorol, Ysbrydoledig a Pherthnasol gan alluogi Dysgwyr Sir Benfro i Symud Ymlaen i Lefelau Dysgu Uwch neu Gyflogaeth ... 13
Adran 3: Cyfrannu at Ranbarth y De Orllewin a'r Economi trwy Fuddsoddi mewn Sgiliau a Chymunedau ... 21
Adran 4: Sicrhau Sefydlogrwydd Ariannol Hirdymor ... 23
Adran 5: Darparu Amgylchedd Cynhwysol, Cynaliadwy a Diogel i Ddysgwyr ... 28
Adran 6: Cyflawni Llywodraethu a Rheoli o'r Radd Flaenaf ... 32
Adran 7: Bod yn Goleg sy'n Gwerthfawrogi ac yn Buddsoddi yn ei holl Staff ... 33
Adran 8: Rhagolygon y Dyfodol ... 37
**Adroddiad Bwrdd y Gorfforaeth** ... 40
**Datganiad Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol** ... 47
**Aelodau Bwrdd y Gorfforaeth** ... 54
**Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Gorfforaeth Coleg Sir Benfro** ... 57
**Datganiad Incwm Cynhwysfawr** ... 60
**Datganiad Newidiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn** ... 61
**Mantolen** ... 62
**Datganiad Llif Arian** ... 63
**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol** ... 64

COLEG SIR BENFRO
DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 GORFFENNAF 2023
ADRODDIAD Y PENNAETH

## Cyflwyniad a Throsolwg

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno fy adroddiad ar berfformiad y Coleg yn ystod y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2023 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel FY23).

Fel cyflwyniad ffurfiol, mae Coleg Sir Benfro yn Gorfforaeth Siartredig y mae ei strwythur llywodraethu wedi'i osod yn yr offerynnau a'r erthyglau llywodraethu ar gyfer Colegau Addysg Bellach yng Nghymru a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2006. Mae'r Sefydliad yn atebol trwy ei gorff llywodraethu a elwir yn Fwrdd y Gorfforaeth, sydd â'r cyfrifoldeb terfynol am benderfynu ar gymeriad addysgol a chenhadaeth y Sefydliad ac am oruchwylio ei weithgareddau.

Gweledigaeth Coleg Sir Benfro yw:

***"Trawsnewid bywydau trwy ddysgu"***

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i greu cyfleoedd a chyfoethogi bywydau trwy ddarparu cyfleoedd dysgu rhagorol ac felly cenhadaeth y Coleg yw:

***"Grymuso unigolion, codi dyheadau a datblygu gweithlu'r yfory."***

Cyfrifoldeb y Gorfforaeth yw llunio barn annibynnol ar faterion strategaeth, perfformiad, adnoddau a safonau ymddygiad.

**Nodau Strategol 2023-2028**

Mae'r Coleg wedi cynhyrchu Cynllun Strategol newydd ar gyfer y cyfnod 2023-2028 ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae'r Coleg yn bwriadu:

## Ein Nodau Strategol

- Datblygu unigolion medrus, creadigol a llwyddiannus
- Cyflwyno dysgu ac addysgu rhagorol, ysbrydoledig a pherthnasol gan alluogi dysgwyr Sir Benfro i symud ymlaen i gyflogaeth neu lefelau dysgu uwch
- Gawrthfawrogi a buddsoddi yn yr holl staff
- Cyfrannu at ranbarth ac economi'r De Orllewin trwy fuddsoddi mewn sgiliau a chymunedau
- Cyflawni llywodraethu a rheolaeth o'r radd flaenaf
- Darparu amgylchedd cynhwysol, cynaliadwy a diogel i ddysgwyr, staff a'r gymuned
- Sicrhau sefydlogrwydd ariannol hirdymor



**Cyflwyniad a Throsolwg** ***Parhad…***

Mae'r nodau strategol a nodir uchod yn ddatganiadau o fwriad sy'n dal gweledigaeth, gwerthoedd ac ethos y Coleg. Rhoddir sylw i'r nodau gan gyfres o nodau; rhai yn y tymor byr, eraill yn hirach.

Mae Cynllun Strategol Coleg Sir Benfro 2023-2028 yn gosod gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer ein datblygiad dros y pum mlynedd nesaf. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu addysg a hyfforddiant o'r radd flaenaf i sicrhau ein bod yn paratoi dysgwyr yn y ffordd orau ar gyfer byd gwaith neu ar gyfer lefelau astudio uwch.

Bydd cyfnod y Cynllun Strategol hwn 2023-2028 yn gyfnod o newid, her a chyfleoedd, gydag effeithiau disgwyliedig ac annisgwyl y pandemig coronafeirws byd-eang, Brexit a phwysau ariannol i gyd yn parhau i gael effaith ddofn ar fywydau pobl a chymdeithas yn gyffredinol. Mae Sir Benfro yn wynebu heriau demograffig sylweddol a phrinder sgiliau ar adeg pan fydd cyfleoedd yn codi drwy gais llwyddiannus Porthladd Rhydd Celtaidd a'r datblygiadau Ynni Adnewyddadwy sy'n dod i'r amlwg yn yr Hafan. Mae'r Coleg mewn sefyllfa allweddol i chwarae rhan ganolog wrth gwrdd â'r heriau a'r cyfleoedd a fydd yn codi.

Mae'r Coleg a'i enw da wedi tyfu'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol dros gyfnod y Cynllun Strategol blaenorol fel y gwelir yn y cynnydd mewn cofrestriadau llawn-amser a phrentisiaethau. Mae'r Coleg bellach yn arwain Consortiwm Prentisiaethau a Thwf Swyddi Cymru a Mwy (JGW+) gyda chontract o fwy na £24 miliwn.

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i agenda Llywodraeth Cymru o weithio ar y cyd â'n partneriaid, yn enwedig Cyngor Sir Penfro ac Ysgolion Sir Benfro, i sicrhau bod dysgwyr y sir yn cael mynediad i'r ystod ehangaf o gyfleoedd academaidd a galwedigaethol.

Mae'r cynllun strategol wedi'i greu yn dilyn ymgynghoriad helaeth ag amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys cyflogwyr, staff, dysgwyr, Fforwm Ymgynghorol Coleg Sir Benfro a Chorff Llywodraethu'r Coleg.

Mae'r Coleg yn cydnabod pwysigrwydd y berthynas â Rhanddeiliaid, gan gynnal cysylltiadau cyfathrebu cryf â nhw:

- Dysgwyr
- Staff
- Y gymuned leol
- Aelodau'r consortiwm dysgu seiliedig ar waith
- Sefydliadau AU
- Cyflogwyr lleol (gyda chysylltiadau penodol)
- Awdurdodau lleol
- Swyddfeydd y Llywodraeth (DWP)/Cyrff Rhanbarthol
- Sefydliadau AB eraill
- Undebau Llafur
- Cyrff proffesiynol
- Sefydliadau Trydydd Sector a gwirfoddol

Er mwyn cyflawni ein cenhadaeth, ein nod yw darparu addysg, hyfforddiant a gwasanaethau cymorth o'r safon uchaf, gan alluogi ein holl ddysgwyr i wireddu eu llawn botensial. Wrth gyflwyno addysg a hyfforddiant, mae'r Coleg yn cyflawni rôl bwysig yn Sir Benfro, rhanbarth y De-orllewin a Chymru o ran gwella sgiliau ein dysgwyr, sy'n cyfrannu at lwyddiant cyflogwyr lleol ac, yn fwy cyffredinol, at yr economi leol. Mae'r Coleg yn cofrestru 13,000 o ddysgwyr, y mwyafrif ohonynt yn ymgymryd ag astudiaethau galwedigaethol, naill ai yn y Coleg, ar safleoedd eu cyflogwyr, neu drwy ein trefniadau Consortiwm B-wbl.

# ADRODDIAD Y PENNAETH

Mae'r Coleg yn cydweithio â nifer o randdeiliaid i gyflawni ei strategaeth ac i gyflwyno'r gweithgareddau amrywiol y mae'n ymgymryd â nhw, yn amrywio o addysgu sgiliau sylfaenol (llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol) ac astudiaethau galwedigaethol (yn y Coleg ac yn y gweithle) hyd at Lefel-A a graddau a diplomâu lefel uwch.

Mae llwyddiant y Coleg i'w briodoli i'r gefnogaeth a'r cydweithio y mae'n ei dderbyn. Felly o'r cychwyn cyntaf hoffwn fynegi fy niolch personol i holl Randdeiliaid y Coleg a thîm cefnogi busnes a staff academaidd rhagorol, y mae eu hymrwymiad a'u hymroddiad yn sicrhau bod ein holl ddysgwyr yn cael y profiad dysgu gorau posibl yma yng Ngholeg Sir Benfro.

Rwyf hefyd am achub ar y cyfle hwn i ddiolch yn ddiffuant i Gadeirydd Bwrdd y Gorfforaeth a holl aelodau'r Corff Llywodraethol am eu cefnogaeth a'u cyfeiriad anhunanol drwy gydol y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Fel Coleg, rydym yn wir yn freintiedig i gael tîm staff a chorff llywodraethu mor ymroddedig a diolchaf iddynt oll am eu cyfraniadau i lwyddiant parhaus y Coleg.

COLEG SIR BENFRO
DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 GORFFENNAF 2023
ADRODDIAD Y PENNAETH

## 1. Datblygu Unigolion Medrus, Creadigol a Llwyddiannus.

Mae’r heriau ôl-Covid-19 wedi parhau i effeithio ar Goleg Sir Benfro yn FY23 fel y maent wedi gwneud ar draws y sector addysg cyfan, o ran profiad a pherfformiad y dysgwr.

Ers agor cyfleuster Lefel-A Campws 6 y Coleg gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ym mis Hydref 2017 mae £14m ychwanegol o gyfleusterau o’r radd flaenaf wedi’u datblygu, wedi’u hariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a’r Coleg. Yn FY19, dyfarnwyd cyllid datblygu cyfalaf o £7.4miliwn i’r Coleg o gronfa Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru. Dros y cyfnod hyd at haf 2022 cynyddodd y cyllid hwn i £10m, gan alluogi cwblhau cynlluniau Band B ar gyfer y prif gampws a’r ganolfan Sgiliau Byw’n Annibynnol (ILS) newydd ar Faes Sioe Amaethyddol Sir Benfro. Cwblhawyd y gwaith o ailddatblygu’r cwrt ar amser ac o fewn y gyllideb ac mae wedi creu llawer mwy o fannau cymdeithasol ac ardaloedd astudio i ddysgwyr ynghyd ag ardal Hwb, lle mae’r holl wasanaethau cymorth i ddysgwyr wedi’u canoli mewn un lleoliad. Agorodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg y cyfleuster hwn yn ffurfiol ym mis Mehefin 2022. Mae’r holl feysydd newydd hyn bellach yn cael eu defnyddio’n dda gan y dysgwyr.

Fe wnaeth y gwaith a gwblhawyd ar ddechrau FY23 ar y gweithdai peirianneg Newydd alluogi symud llwybrau weldio a ffabrigo o adeilad Mitec yn Aberdaugleddau i gampws y Coleg i gyfleuster newydd o’r radd flaenaf. Agorodd Prif Weinidog Cymru Mark Drakeford y Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Weldio a Ffabrigo yn ffurfiol ym mis Ebrill 2023.




Mae'r tabl isod yn dangos bod dysgwyr addysg bellach llawn-amser wedi aros yr un peth o FY22 i FY23 ond dros y cyfnod o bum mlynedd dangosir eu bod wedi cynyddu 4%. Mae niferoedd rhan amser wedi gostwng 7% oherwydd y cymysgedd o ddarpariaeth ran-amser a ddarparwyd gan y Coleg, fodd bynnag defnyddiwyd dros 100% o’r cyllid rhan amser, sydd yn dda i nodi wrth i ni barhau i wella ar ôl Covid-19.

| **Niferoedd Dysgwyr Addysg Bellach** | **FY19** | **FY20** | **FY21** | **FY22** | **FY23** |
|---|---|---|---|---|---|
| Llawn-amser | 1,727 | 1,781 | 1,828 | 1,802 | 1,803 |
| Rhan-amser | 4,734 | 3,306 | 3,206 | 3,942 | 3,666 |
| **Cyfanswm Dysgwyr** | **6,461** | **5,087** | **5,034** | **5,744** | **5,469** |

### Datblygu Unigolion Medrus, Creadigol a Llwyddiannus *Parhad…*

Yn ystod FY23, gwelodd y Coleg gynnydd o 7% yn ei niferoedd prentisiaethau dysgu seiliedig ar waith. Mae niferoedd rhaglenni cyflogadwyedd wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn gan fynd i lawr 6% pellach o gymharu â FY22.

| **Niferoedd Dysgwyr Dysgu'n Seiliedig ar Waith** | **FY19** | **FY20** | **FY21** | **FY22** | **FY23** |
|---|---|---|---|---|---|
| Prentisiaid | 907 | 705 | 779 | 851 | 913 |
| Rhaglenni Cyflogadwyedd | 242 | 210 | 167 | 64 | 60 |
| **Cyfanswm Dysgwyr** | **1,149** | **915** | **946** | **915** | **973** |

Mae cofrestriadau addysg uwch llawn-amser dros y pum mlynedd diwethaf wedi gostwng i lefel lle nad oes darpariaeth llawn-amser yn cael ei chyflwyno. Mae niferoedd rhan-amser wedi cynyddu 19% flwyddyn ar ôl blwyddyn, ar ôl cynyddu 31% dros y cyfnod o bum mlynedd sydd yn gadarnhaol.

| **Niferoedd Dysgwyr Addysg Uwch** | **FY19** | **FY20** | **FY21** | **FY22** | **FY23** |
|---|---|---|---|---|---|
| Llawn-amser | 56 | 43 | 26 | 13 | - |
| Rhan-amser | 87 | 85 | 74 | 96 | 114 |
| **Cyfanswm Dysgwyr** | **143** | **128** | **100** | **109** | **114** |

### Addysg Bellach

Mae craidd gwaith y Coleg yn ymwneud ag addysg bellach. Mae'r Coleg yn parhau i ddatblygu ei ddarpariaeth i fodloni anghenion cyflogwyr a diwydiant, ac yn sylfaenol i hyn, mae'r ddarpariaeth dysgu ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed. Daw'r mwyafrif o ddisgyblion 16 oed y sir i'r Coleg ar gyfer addysg bellach neu hyfforddiant, gydag eraill yn aros yn yr ysgol i astudio Lefel-A.

Er bod niferoedd y dysgwyr llawn-amser yn parhau'n gyson yn FY23 ar 1803 (FYA22 1802), profwyd y duedd hon i raddau helaethach ar draws y sector AB. Priodolwyd hyn yn rhannol i'r ffordd y cymhwyswyd graddau TGAU ar ôl Covid a'r ffaith bod dysgwyr yn fwy tebygol o gyflawni Gradd C neu uwch mewn chwe phwnc neu fwy ac y gallent felly ddewis aros mewn lleoliad ysgol. Fodd bynnag, disgwyliwn i ffigurau gynyddu yn y blynyddoedd i ddod yn unol â thueddiadau demograffig a graddau TGAU yn dychwelyd i raddau cyn-Covid. Mae darpariaeth Lefel 3 (Lefel-A a Diplomâu Estynedig galwedigaethol cyfwerth) bellach yn cyfrif am dros 58% o'r ddarpariaeth gyffredinol – gan adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru i gynyddu sgiliau lefel uwch.

Mae Coleg Sir Benfro yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddatblygu sgiliau ôl-19 ac er ein bod wedi gweld gostyngiad mewn cofrestriadau yn y blynyddoedd diwethaf yn dilyn gostyngiad mewn cyllid rhan-amser, mae hyn bellach yn sefydlogi. Gwelodd FY23 y Coleg yn gwella ar ei ddyraniad cyllid rhan-amser, gan gyflawni 100%, a oedd yn galonogol yng ngoleuni'r hinsawdd economaidd a phwysau chwyddiant yr oedd busnesau ac unigolion yn destun iddynt. Mae darpariaeth a arweinir gan gyflogwyr yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod hyn drwy ailgyflwyno mecanwaith ariannu arwahanol drwy Gyfrifon Dysgu Personol gyda'r Coleg yn cyflawni ei ddyraniad llawn yn FY23.

## Llwyddiannau Dysgwyr

| ***Worldskills UK - Enillwyr Medalau a Chystadleuwyr mewn Rowndiau Terfynol*** | | |
|---|---|---|
| **Garddwriaeth** | Morgan Scarfe | **Aur** |
| **Iechyd a Gofal** | Sophie James | **Arian** |
| **TG Sylfaen ar gyfer Busnes** | Declan Morrissey | **Efydd** |
| **Y Cyfryngau Sylfaen** | Luke Lloyd<br>King Khamhanphon | **Efydd** |
| **Weldio** | Billy Burton<br>Josh Handley | **Rownd Derfynol** |
| **Trin Gwallt Sylfaen** | Tom Fairbairn | |
| **Y Cyfryngau** | Craig Deakin | |

| ***Llwyddiannau Chwaraeon*** | |
|---|---|
| **Taflu Maen Cymru a Phrydain** | Dafydd Pawlett |
| **Golff Cymru** | Holly Jenkins |
| **Gymnasteg** | Arabella Hurst<br>Seren Rowland Higgans |
| **Athletau Cymru, Rhedeg** | Rhys Llewellyn |
| **Academyddion Cymru, Rygbi** | Dan Page |
| **Pêl-droed Dynion Colegau Cymru** | Lucas Davies<br>Harri John |
| **Pêl-droed Merched Colegau Cymru** | Megan Thomas |
| **Bocsio Ieuenctid Cymru** | Mikey O'Sullivan<br>Ffion Willmott |

| ***Ysbrydoli Sgiliau Cymru – Enillwyr Medalau*** | | |
|---|---|---|
| **Cerddoriaeth Boblogaidd** | Beck Cole-Picton | **Aur** |
| | Amy Evans | **Aur** |
| | Noah Hathaway | **Aur** |
| | Tegan Skyrme | **Aur** |
| | Ula Bohata Jones | **Aur** |
| | Cai Barry | **Aur** |
| **Ymarferydd Therapi Harddwch** | Carlie-Jayne Dutton | **Aur** |
| **Dylunio Ffasiwn a Thechnoleg** | Sofia Longworth | **Arian** |
| **Weldio** | Jordan Palmer | **Arian** |
| **Ynni Adnewyddadwy** | Logan Day<br>Rhys Hardman<br>Andrew Scott<br>Amy Wilson | **Arian** |
| **Plymio a Gwresogi** | Tomos Evans | **Arian** |
| **Ffitrwydd Cynhwysol** | Rhys Baker | **Efydd** |
| **Sgiliau Cynhwysol Gofal Plant** | Chloe John | **Efydd** |
| **Gwaith Brics** | Tucker Guy | **Efydd** |
| **Cynhyrchu Cyfryngau Digidol** | Ffion Evans<br>Stephanie Prosser | **Efydd** |
| **Therapydd Harddwch** | Erin Owens | **Efydd** |

| ***Eisteddfod*** | | |
|---|---|---|
| **Creu Ap (D19)** | Ffion Evans | **Aur** |
| | Stephanie Prosser | **Arian** |
| | Penda Mickish | **Efydd** |
| **Creu Ap (D25)** | Jay Lewis | **Aur** |
| | Liberty Prosser | **Arian** |
| | Lexa Wilson-Pope | **Efydd** |
| **Gwobr Dysgwr Cymraeg 19-25 oed** | Enillodd myfyriwr gwaith saer, Seb Landais Wobr Dysgwr Cymraeg 19-25 oed, Medal Bobi Jones yn Eisteddfod Genedlaethol 2023 am ei ymrwymiad i ddysgu Cymraeg. | |

| ***Gwobrau B-wbl 2023*** | |
|---|---|
| **Talent Yfory, Enillydd:** | Kelly Williams, Dragon LNG |
| **Gwobr Iaith Gymraeg – y Rownd Derfynol:** | Siân Thomas-Davies, Hywel Dda |
| **Prentis Uwch y Flwyddyn – y Rownd derfynol:** | Casey Vincent, Landsker Childcare |

| ***Gwobr Aur Dug Caeredin*** |
|---|
| **Zachary Thomas, Oliver Monk, Rosa Brew, Hannah Douglas** |

| ***Amrywiol*** | ***Enillwyr a Rownd Derfynol*** |
|---|---|
| **Rownd Ranbarthol SkillBuild:** | **Thomas Evans**, Plymio<br>**Leighton Montgomery**, Gwaith Saer |
| **Ffederasiwn Meistr Adeiladwyr Cymru, Prentis y Flwyddyn:** | **Jordan Gay**, Adeiladwyr Bluestone |
| **Gwobr AB a Phrentisiaethau William Salesbury Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol:** | **Seb Landais** |
| **Gwobrau Gwynt Alltraeth Byd-eang:** | **Destination Renewables Programme** |
| **Gwobrau Croeso Sir Benfro, Person Twristiaeth Ifanc y Flwyddyn:** | **Samuel Williams**<br>**Ollie Ryder** |
| **Gwobrau Bwyd a Diod Cymru, Prentis y Flwyddyn:** | **Samuel Davies**, Puffin Produce |
| **Bwrsariaeth Soroptimydd i Fenywod mewn Adeiladu:** | **Amy Wilson**, L3 Adeiladu a Dylunio |
| **Gwobrau ECITB a Datblygu, Ysgolor y Flwyddyn:** | **Joshua Handley** |
| **Salon Culinaire, Cogydd Tafarn y Flwyddyn:** | **Daniel Jones** |

## Dysgu Seiliedig ar Waith

Mae Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW) yng Ngholeg Sir Benfro yn cael ei gyflwyno drwy'r Rhaglen Gomisiynu Prentisiaethau a thrwy gontract Twf Swyddi Cymru a Mwy (JGW+) sy'n rhaglen gyflogadwyedd.

Pwrpas y Rhaglen Brentisiaethau yw rhoi'r gweithlu medrus perthnasol i gyflogwyr i ddiwallu anghenion eu busnesau ac economi Cymru ar hyn o bryd ac yn y dyfodol tra'n darparu'r sgiliau angenrheidiol i unigolion allu cychwyn ar yrfaoedd llwyddiannus. Mae prentisiaethau'n canolbwyntio ar weithwyr sydd yn y gweithle, ac felly'n effeithio ar:

- Unigolion - trwy ddarparu'r modd y gallant gyflawni eu potensial
- Cyflogwyr - trwy wella sgiliau eu gweithlu
- Yr economi leol a chenedlaethol - trwy wella'r sylfaen sgiliau sydd ar gael ar gyfer sbarduno twf economaidd


Mae Rhaglen Ieuenctid Twf Swyddi Cymru a Mwy (Rhaglen JGW+) yn darparu hyfforddiant, datblygiad a chymorth cyflogadwyedd cyfunol i bobl ifanc 16-18 oed sy'n cael eu hasesu'n NEET (Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant). Mae'n cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r canlyniadau a'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, sy'n rhan annatod o'r Cynllun Cyflogadwyedd, Rhaglen y Llywodraeth Symud Cymru Ymlaen, Strategaeth Genedlaethol Ffyniant i Bawb a'r Amcanion Llesiant.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i ddarparu DSW drwy gontractau sy'n destun tendr cystadleuol. Cynhaliwyd y broses gontractio ddiweddaraf ar gyfer Prentisiaethau yn hydref 2020 ac ar gyfer Twf Swyddi Cymru a Mwy (JGW+) yng ngwanwyn 2021.

Ers mis Awst 2011, mae'r Coleg wedi bod yn arwain consortiwm Dysgu Seiliedig ar Waith – "B-wbl", sy'n darparu rhaglenni prentisiaeth a chyflogadwyedd. Roedd y Consortiwm yn wreiddiol yn cynnwys chwe phartner (yn cynnwys colegau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant annibynnol) a sicrhaodd gontract o £6.5m. Mae cyfansoddiad y Consortiwm wedi newid dros amser ac erbyn hyn mae ganddo ugain o bartneriaid ar draws De, Gorllewin a Chanolbarth Cymru. Ym mis Ebrill FY21 roedd y Coleg yn llwyddiannus wrth ail-dendro am gontract prentisiaeth DSW newydd, ar yr un pryd roedd sawl deiliad contract blaenorol yn aflwyddiannus yn y broses, gan arwain at ostyngiad yn nifer y deiliaid prif gontract o ddeunaw i ddeg. Yn yr un flwyddyn, bu'r Coleg hefyd yn llwyddiannus wrth dendro am gontract newydd JGW+ a'r rhaglen gyflogadwyedd ar gyfer pobl ifanc. O ganlyniad i'r newid hwn, mae gwerth y contract newydd ar gyfer consortiwm B-wbl bellach yn fwy na £24 miliwn.

Ym mis Mai 2023, cynhaliodd B-wbl ei gynhadledd flynyddol a'i seremoni wobrwyo gyntaf i ddathlu ein dysgwyr JGW+ a Phrentisiaethau. Yn ystod y gynhadledd a gynhaliwyd yn Stadiwm Dinas Abertawe, daeth 100 o ymarferwyr o bob rhan o'n rhwydwaith darparwyr ynghyd ar gyfer digwyddiad yn canolbwyntio ar addysgu a dysgu.

**Partneriaid Consortiwm B-wbl (Prentisiaethau)**




**Partneriaid Consortiwm B-wbl (JGW+)**




**Cyfaint Cyflenwi O'i gymharu â'r Rhwydwaith FY23**

Cyfanswm gwerth y contract prentisiaethau ar draws yr holl ddeiliaid contract ar gyfer FY23 oedd £148m (B-wbl £23m, 2il ddarparwr mwyaf) a JGW+ £23m (B-wbl £2.8m).

Mae'r Consortiwm yn darparu ar draws ystod o lwybrau gyda'r sector Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal (42%) sef y mwyaf, ac yna Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu (20%).

**Prentisiaethau fesul Sector 2022/23**



## Addysg Uwch

Mae'r Coleg yn cyflawni rôl bwysig wrth gyflwyno cyrsiau addysg uwch yn y sir. Er bod y ffrwd incwm hon yn cynrychioli ychydig o dan 1% o incwm cyffredinol y Coleg, mae darparu cyrsiau o'r fath (llawn-amser a rhan amser) yn bwysig i ddysgwyr yn Sir Benfro am y rhesymau a ganlyn:

- Nid oes Sefydliad Addysg Uwch ('HEI') yn Sir Benfro sy'n cynnig cyrsiau
- Mae dysgwyr sydd mewn cyflogaeth, sydd eisiau dilyn cymwysterau addysg uwch yn gallu gwneud hynny
- Mae rhai pobl am resymau ariannol a/neu deuluol yn methu mynd i ffwrdd i astudio ac eisiau aros gartref, ond yn dal eisiau dilyn cymhwyster addysg uwch
- Mae cyflogwyr am uwchsgilio eu gweithwyr, trwy ganiatau iddynt ddilyn cyrsiau lefel uwch rhan-amser
- Gall oedolion sy'n dysgu sy'n dychwelyd weld amgylchedd y Coleg yn fwy priodol ar gyfer eu dysgu ac yn fwy cyfleus

Ers 2011, mae Prifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) wedi darparu'r cyllid, y pwerau dyfarnu graddau a throsolwg ansawdd y ddarpariaeth Addysg Uwch. Mae'r coleg wedi cydweithio â'r Brifysgol i gynnig Prentisiaethau Gradd o fis Medi 2023.

Eleni mae Coleg Sir Benfro wedi ennill statws un o Sefydliadau Technegol Prifysgol Cymru, sef cydweithrediad rhwng PCYDDS a phedwar coleg AB, gan alluogi datblygu a chyflwyno darpariaeth newydd ledled Cymru. Y meysydd cychwynnol sy'n cael eu harchwilio yw:

- Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch
- Ynni
- Gwasanaethau Proffesiynol Modern
- Celfyddydau Creadigol
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Plentyndod a'r Blynyddoedd Cynnar

## 2. Darparu dysgu ac addysgu rhagorol, ysbrydoledig a pherthnasol gan alluogi dysgwyr Sir Benfro i symud ymlaen i lefelau uwch o ddysgu neu gyflogaeth


Mae llwyddiant coleg yn cael ei adlewyrchu yn llwyddiant ei ddeilliannau dysgwyr. Yn hyn o beth, er bod FY23 wedi bod yn flwyddyn heriol, bu nifer sylweddol o lwyddiannau ar gyfer dysgwyr llwybr galwedigaethol ac academaidd.

Cadarnheir canlyniadau Lefel A ar gyfer FY23 ac mae'r Coleg yn falch o gofnodi cyfradd lwyddo gyffredinol o 97% a chyfradd llwyddiant A*-C o 76% sydd ychydig yn is na'r Cymharydd Cenedlaethol (CC). Roedd y canlyniadau AS hefyd yn foddhaol gyda 19% o'r holl gofrestriadau yn ennill gradd A.

Nid yw canlyniadau Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW) ar gyfer y Coleg a'i Gonsortiwm B-wbl wedi'u cwblhau eto ond mae'r canlyniadau bellach yn dychwelyd i lefelau sy'n cyd-fynd yn well â chanlyniadau cyn Covid-19. Yn FY22 roedd canlyniadau prentisiaethau yn y Coleg yn 83%.

Mae prif feysydd gweithgareddau'r Coleg yn ymwneud ag addysg bellach – cyrsiau galwedigaethol ac academaidd – a dysgu seiliedig ar waith (gyda'i gilydd, 71% o'n gweithgareddau), fel y dangosir yn y siart isod:

**Natur y Ddarpariaeth (yn ôl ffrwd incwm)**




**Canlyniadau Addysg Bellach**

Mae'r Coleg yn darparu cyrsiau ar gyfer dysgwyr llawn-amser, 16-19 oed yn bennaf, a dysgwyr rhan-amser. Mae'r Coleg yn rhagweld y bydd yn cynnal cyfradd llwyddiant 'pob cymhwyster' cryf ond ni chaiff hyn ei gadarnhau tan fis Rhagfyr 2023. Mae rhai dysgwyr sy'n astudio llwybrau galwedigaethol seiliedig ar gymhwysedd yn aros am gadarnhad o ddeilliannau yn dilyn ymweliadau gan ddilyswyr allanol.

**Tuedd Cyfradd Llwyddiant Pob Cymhwyster**

Mae cyfraddau llwyddiant pob cymhwyster yn seiliedig ar ddata mewnol gan nad yw Llywodraeth Cymru bellach yn cynhyrchu Adroddiadau Deilliannau Dysgwyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Mesurau Perfformiad Cyson Ôl-16 a 2021/22 oedd y flwyddyn gyntaf i'r Coleg gael data wedi'i ddilysu gan Lywodraeth Cymru ers 2018/19. Cyfradd llwyddiant 'pob cymhwyster' yn 2021/22 yw 79% sydd wedi'i effeithio gan y pandemig a chwblhau rhaglenni.




**Canlyniadau Lefel-A**


Cadarnheir canlyniadau Lefel-A ar gyfer FY23 gyda chyfradd lwyddo A* i A ar 31%, cyfradd lwyddo A* i C ar 76% ac A* i E ar 97%. Mae'r tabl isod yn dangos y duedd dros y pedair blynedd diwethaf gyda graddau wedi'u dyfarnu fel Graddau a Aseswyd gan Athrawon a Graddau a Benderfynir gan y Ganolfan drwy gydol cyfnod y pandemig. Mae canlyniadau gwerth ychwanegol hefyd yn dangos bod y Coleg yn cefnogi dysgwyr Lefel-A i gyflawni canlyniadau gwell nag a nodir gan eu proffil graddau TGAU.

| Graddau Lefel A | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2022/23 NC |
|---|---|---|---|---|---|
| A/A* | 48% | 41% | 38% | 31% | 34% |
| A*-C | 97% | 85% | 88% | 76% | 79% |
| A*-E | 100% | 95% | 99% | 97% | 98% |

**Canlyniadau Galwedigaethol**

Mae'r siart isod yn dangos perfformiad galwedigaethol fesul lefel yn erbyn y cymharydd cenedlaethol ar gyfer 2021/22.

Llwyddiant Galwedigaethol 2021/22




Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad fesul maes sector pwnc (SSA) ar gyfer 2021/22, yn y mesurau arddull Cofnod Deilliant Dysgwr (LOR) traddodiadol, wedi'i rannu â rhaglenni llawn-amser, rhan-amser a rhaglenni cyffredinol.

| SSA | Sector | Pob Rhaglen % | Llawn Amser % | Rhan Amser % |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal | 88 | 71 | 96 |
| 2 | Gwyddoniaeth a Mathemateg | 75 | 79 | 65 |
| 3 | Amaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid | 73 | 73 | 100 |
| 4 | Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu | 77 | 73 | 91 |
| 5 | Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig | 73 | 72 | 77 |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 89 | 89 | - |
| 7(b) | Trin Gwallt a Harddwch | 69 | 66 | 73 |
| 7(c) | Lletygarwch ac Arlwyo | 82 | 77 | 89 |
| 8 | Hamdden, Teithio a Thwristiaeth | 85 | 86 | 81 |
| 9(a) | Celfyddydau Perfformio | 84 | 84 | 100 |
| 9(b) | Celf a Dylunio | 86 | 87 | 25 |
| 10 | Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth | 72 | 72 | 67 |
| 11 | Gwyddorau Cymdeithas | 83 | 83 | 100 |
| 12 | Ieithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant | 76 | 78 | 74 |
| 14(a) | Sgiliau Byw'n Annibynnol | 99 | 100 | 99 |
| 14(c) | Sylfaen i Waith | 72 | 71 | 89 |
| 15 | Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith | 70 | 74 | 63 |

## Dysgu Seiliedig ar Waith: Prentisiaid a Hyfforddeion

Ar gyfer Coleg Sir Benfro fel darparwr, nid yw cyfraddau llwyddiant fframwaith ar gyfer FY23 wedi'u pennu'n derfynol eto er ein bod yn rhagweld alldro terfynol o 82%. Ar gyfer Consortiwm B-wbl a arweinir gan Goleg Sir Benfro, mae gwaddol y pandemig ac effaith diwygio cymwysterau wedi effeithio ar gyfraddau llwyddiant FY23 ar lefel tri, fel mewn Iechyd a Gofal ac Adeiladu. Cafodd y gallu i wella deilliannau dysgwyr, ni waeth ble mae dysgwyr wedi'u lleoli neu gan bwy y maent yn cael eu cyflwyno'n uniongyrchol, sylw yn adroddiad Arolygiad Estyn ym mis Mehefin 2015 ac mae'n adlewyrchu llwyddiant y tîm rheoli wrth addasu i reoli nifer fawr o is-gontractwyr.

## Addysg Uwch a Dilyniant i Brifysgol

Mae'r gallu i ddarparu llwybrau cymhwyster Lefel-A a Diploma Estynedig yn galluogi dysgwyr i ddewis y llwybr gorau iddynt symud ymlaen i addysg uwch. Mae Diplomâu Estynedig BTEC yn cyfateb i 3 Lefel A ac yn FY23, aeth 184 o ddysgwyr ymlaen i Addysg Uwch, gyda 106 (58%) yn ddysgwyr Lefel-A a 78 (42%) yn ddysgwyr galwedigaethol.

## Dysgu Cymunedol


Mae darpariaeth Dysgu Oedolion a Chymunedol (DOG) y Coleg yn cynnwys cyrsiau byr o dan frand darpariaeth Gymunedol ac mae'n cynnwys detholiad o gyrsiau achrededig a hamdden.

Mae ymgysylltu effeithiol â chyflogwyr yn caniatáu gwell cyfleoedd i gyflogwyr lleol a hefyd i'r rhai sy'n chwilio am waith. Mae gwaith gwirfoddol yn rhan allweddol o'r strategaeth Profiad Gwaith ac mae'n sicrhau bod dysgwyr yn ymgysylltu â gweithgareddau perthnasol sy'n gysylltiedig â'r cwrs a'u bod yn barod am waith ar gyfer symud ymlaen i'r gweithle.

## Sgiliau

Mae'r Coleg yn darparu darpariaeth alwedigaethol ym mhob maes pwnc sector gan alluogi dysgwyr yn Sir Benfro i gael mynediad i'r cynnig cwricwlwm ehangaf. Mae'r sectorau y cynigir cyrsiau galwedigaethol ar eu cyfer yn adlewyrchu economi Sir Benfro i raddau helaeth ac mae'r Coleg wedi gweithio i ddatblygu cysylltiadau cryf â chyflogwyr lleol. Mae'r Coleg yn amcangyfrif ei fod yn gweithio gyda 4,000 o gyflogwyr ac felly, mewn sefyllfa unigryw i helpu dysgwyr i wireddu eu potensial ar gyfer cyflogaeth.

**Gweithgaredd y Coleg fesul Maes Sector Pwnc (SSA)**




Mae pob dysgwr sy'n cofrestru yn y Coleg yn cael ei gefnogi i ddatblygu ei lefelau sgiliau sylfaenol. Mae'n ofynnol i ddysgwyr ymgymryd ag Asesiad Cychwynnol WEST mewn Llythrennedd, Rhifedd, a Llythrennedd Digidol wrth gofrestru. Mae'r asesiadau hyn yn rhoi sgorau gwaelodlin y disgwylir i ddysgwyr wella arnynt yn eu hamser yn y Coleg. Wrth gofrestru, mae graddau TGAU dysgwr mewn Mathemateg a Saesneg Iaith yn pennu beth fydd eu darpariaeth Sgiliau yn y Coleg. Os yw dysgwr wedi sicrhau graddau C, mae'n uwchsgilio trwy ein rhaglen Cyrchfannau Uwchsgilio, Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru, neu'r Cymhwyster Prosiect Estynedig. Os nad yw dysgwyr wedi sicrhau graddau C yn y pynciau hyn, mae'n ofynnol iddynt ailsefyll y cymwysterau hyn. Mae dysgwyr â gradd D yn cael eu hamserlennu i raglen ailsefyll TGAU ac mae dysgwyr â gradd E neu is yn cael eu hamserlennu i raglen Cyn-TGAU. Yn 2022/2023, buom yn gweithio gyda 339 o ddysgwyr ar y rhaglen ailsefyll TGAU. O'r 163 a gofrestrodd ar yr ailsefyll TGAU Saesneg Iaith, enillodd 39% A*-C (o gymharu â'r Cymharydd Cenedlaethol 28.4%). Ar gyfer Mathemateg, cofrestrwyd 176 o ddysgwyr gyda 32% yn ennill gradd A*-C (o gymharu â'r Cymharydd Cenedlaethol 18%).

## Meysydd Ffocws Eraill

### Iaith a Diwylliant Cymru

Yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg, cyhoeddodd y Coleg ei adroddiad blynyddol ar weithrediad y Safonau ar 31 Ionawr 2023, gan roi trosolwg o gydymffurfiaeth y Coleg â'r Safonau a'i weithgarwch hybu a hyrwyddo. Gellir gweld yr adroddiad yma, yn Gymraeg neu yn Saesneg.

O ran y cwricwlwm, mae'r Coleg wedi ymrwymo i Gynllun Strategol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol 2020/21 – 2024/25, gan sicrhau bod dysgwyr a staff yn croesawu dwyieithrwydd ac yn deall pwysigrwydd sgiliau dwyieithog yn y gweithle a'r cyfleoedd y mae'r Gymraeg yn eu darparu ar gyfer cyflogaeth.

**Iaith a Diwylliant** ***Parhad…***

Cefnogir cwricwlwm y Coleg gan gyllid y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sy'n galluogi cyflogi Tiwtoriaid Cefnogi Dwyieithrwydd ym meysydd blaenoriaeth Iechyd, Gofal Plant, Gwasanaethau Cyhoeddus, Gofal Anifeiliaid a Chwaraeon, gyda Busnes a'r Diwydiannau Creadigol yn cael eu hychwanegu yn 2023/24. Mae'r rolau hyn a ariennir yn darparu mwy o gyfleoedd cyfrwng Cymraeg/dwyieithog i ddysgwyr o fewn amgylchedd yr ystafell ddosbarth. Anogir a chefnogir dysgwyr Cymraeg rhugl i gwblhau elfennau o'u rhaglen ddysgu yn Gymraeg, gan roi dilyniant a pharhad ieithyddol iddynt. Mae dysgwyr nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl hefyd yn cael cyfleoedd i uwchsgilio eu sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithle.

Mae'r Coleg yn sicrhau bod ei strategaeth datblygu Cymraeg a dwyieithog yn parhau i ganolbwyntio ar gynyddu nifer y dysgwyr sy'n dysgu'n ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â strategaethau a chynlluniau gweithredu Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Yn ystod blwyddyn academaidd FY23 parhaodd yr iaith Gymraeg i gael ei hintegreiddio i'r LAP ar draws y Coleg. Derbyniodd cyfanswm o 70 o gyrsiau FEFT y rhaglen 10-15 awr 'Dwyieithrwydd ar gyfer y Gweithle' gyda'r ffocws ar ddatblygu sgiliau Cymraeg sy'n berthnasol i'r gweithle, o fewn cyd-destun gwasanaeth cwsmer a'r cynnig gweithredol. O ganlyniad, cwblhaodd 899 o ddysgwyr y rhaglen 'Dwyieithrwydd' neu elfennau o'u prif gymhwyster trwy gyfrwng y Gymraeg. O'r cyfanswm hwn, cafodd 859 eu codio ar LLWR LA26 fel B3; 16 fel B2 a 24 fel B1/C1. Mae'r gweithgaredd hwn wedi'i gefnogi gan brosiectau allweddol a ariennir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yn enwedig rolau Tiwtoriaid Cefnogi Dwyieithrwydd yn y meysydd blaenoriaeth, grant 'Hybu a Hyrwyddo' a chynllun Llysgenhadon y Gymraeg.

Mae'r Coleg wedi sicrhau cyllid pellach gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar gyfer 2023/24, gyda'r nod o ddatblygu darpariaeth ddwyieithog ym meysydd blaenoriaeth newydd Busnes a'r Diwydiannau Creadigol, yn ogystal â pharhau i gefnogi Iechyd, Gofal Plant, Gwasanaethau Cyhoeddus, Gofal Anifeiliaid. a Chwaraeon. Rhagwelir y bydd y buddsoddiad hwn yn arwain at:

- mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog i ddysgwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog
- cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n cwblhau asesiadau yn Gymraeg
- mwy o ymgysylltiad dysgwyr â chyfleoedd i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg ac mewn gweithgareddau a digwyddiadau hyrwyddo Cymraeg allgyrsiol

Parhaodd y staff i gymryd rhan yn y cynllun cenedlaethol Cymraeg Gwaith er mwyn datblygu eu sgiliau Cymraeg yn amgylchedd y dosbarth. Ymunodd cyfanswm o 28 o staff â'r prosiect o gymharu â 24 yn y flwyddyn flaenorol, gan dderbyn sesiynau mentora un-i-un wythnosol gan Diwtor Cymraeg Gwaith y prosiect. Cefnogwyd staff hefyd gan Dîm Datblygu'r Gymraeg y Coleg i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog a chyfleoedd i ddysgwyr.

## Dysgu Digidol

Mae'r Coleg wedi buddsoddi'n strategol mewn gwreiddio dulliau dysgu Digidol wrth gyflwyno'r cwricwlwm er mwyn gwella dysgu, addysgu ac asesu fel rhan o strategaeth Digidol 2030 y Coleg. Mae hyn yn cynnwys caledwedd technoleg ddigidol i sicrhau bod lleoliadau ystafell ddosbarth a gweithdai yn cynnig yr offer cywir i weithredu'n ddigidol. Mae ein Tîm Dylunio Digidol ymroddedig yn gweithio gyda thimau addysgu i ddarparu modiwlau o ddysgu cyfunol fel elfen o gyflwyno'r cwricwlwm, gan annog staff cyflwyno i ddatblygu ymhellach fel darlithwyr ysbrydoledig a llawn dychymyg. Mae Dysgu Digidol yn grymuso staff a dysgwyr i fanteisio ar gyfleoedd i ysbrydoli dysgu drwy ddefnyddio technoleg. Fodd bynnag, cydnabyddir bod y rhan fwyaf o bobl ifanc 16-19 oed wedi methu â chael darpariaeth wyneb yn wyneb, sef y dull dysgu a ffefrir. Mae'r Coleg bellach wedi dychwelyd at y norm o gyflwyno wyneb yn wyneb, ond gyda'r gallu i gyflwyno dysgu ar-lein lle bo'n briodol. Bydd angen buddsoddiad pellach mewn offer, meddalwedd a hyfforddiant staff i gyflawni uchelgeisiau Digidol 2030 y Coleg. Cynhaliodd y Coleg ddiwrnod hyfforddi "Digifest" i'r holl staff ym mis Gorffennaf 2023 a oedd yn flaengar a chafodd dderbyniad da.

## Lles a Diogelu Dysgwyr

Mae'r Coleg yn parhau i ganolbwyntio ar wella pob agwedd ar ddiogelu, gofal, lles, gwydnwch a chymorth i ddysgwyr. Yn ystod FY23, mae pwyslais sylweddol wedi parhau ar yr agenda Diogelu a Lles, gan godi ymwybyddiaeth a diogelu dysgwyr rhag risgiau sydd newydd eu hadnabod a materion yn ymwneud â 'Everyone's Invited'. Mae ein tîm diogelu wedi parhau i gyflawni rôl ganolog, yn enwedig gyda'n dysgwyr agored i niwed y nodwyd eu bod mewn perygl. Mae meysydd gweithgaredd wedi cynnwys hyfforddiant iechyd meddwl a gwydnwch a defnyddio cyllid i ddarparu cymorth cwnsela ar-lein 24/7. Mae partneriaethau rhanbarthol a gwaith amlasiantaethol yn parhau i fod yn gryfder yn y Coleg ac mae'r holl wasanaethau mewnol ac allanol wedi parhau i gydweithio i gefnogi dysgwyr. Mae Swyddog Iechyd a Lles i ddysgwyr wedi bod yn allweddol wrth alluogi'r Coleg i fodloni gofynion Safonau Iechyd y Brifysgol a'r Colegau, ynghyd â Swyddog Iechyd a Lles ar gyfer staff. Mae'r Coleg wedi ymrwymo i weithredu'r 'Pecyn Cymorth wedi'i Hysbysu am Drawma' a rhannu gwaith gyda'r sector. Mae'r Coleg hefyd wedi sefydlu Grŵp Strategol Lles Ariannol i lywio polisi a syniadau ar gyfer cymorth i ddysgwyr a staff. Mae hyn er mwyn sicrhau ein bod yn rhagweithiol wrth gefnogi staff a dysgwyr trwy bob modd posibl wrth i ni fyw trwy gyfnod o galedi ariannol i lawer.

## Sicrwydd Ansawdd

Mae Sicrhau Ansawdd yn hanfodol i sicrhau bod y Coleg yn darparu rhaglenni dysgu a gwasanaethau cymorth o ansawdd rhagorol. Mae'n rhaid gosod ansawdd ar y blaen ac yn ganolog ym mhopeth a wnawn er mwyn cael ein cydnabod fel un o'r colegau sy'n perfformio orau yn y DU. Rydym yn ymfalchïo yn ein ffocws parhaus i wella. Mae strwythur Aspire yn cynnwys Gwella Ansawdd, Sicrhau Ansawdd, Dysgu ac Addysgu a Datblygiad Proffesiynol Parhaus, gan alluogi Tîm Aspire i integreiddio pob agwedd ar Wella Ansawdd yn effeithiol. Mae'r strwythur hwn yn defnyddio'r ffordd y mae'r elfennau hyn o'r ddarpariaeth yn effeithio ar ei gilydd, gan gefnogi ac ysbrydoli staff, gwella systemau a phrosesau ac adeiladu ar ddiwylliant uchelgeisiol presennol y Coleg.

**Sicrwydd Ansawdd** ***Parhad…***

Mae Datblygiad Proffesiynol Parhaus o dan ein rhaglen Aspire yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac mae hyn yn parhau i yrru rhaglen hyfforddi orfodol yn ei blaen ar gyfer diogelu, rheoli ymddygiad cadarnhaol, cydraddoldeb ac amrywiaeth ac arferion gwaith mwy diogel. Mae Aspire yn annog staff i ymgymryd â'u datblygiad eu hunain ac yn cynnig cymorth i staff addysgu gan ddefnyddio dulliau a modelau hyfforddi arloesol. Rydym yn adolygu anghenion datblygu ein timau rheoli yn barhaus ac mae gennym raglen datblygu arwain a rheoli barhaus, gan wella ymhellach ein heffeithiolrwydd fel rheolwyr, ein gwybodaeth, ein dealltwriaeth a'n sgiliau.

Ni ellid cyflawni'r prosesau sicrhau ansawdd yn y Coleg heb gefnogaeth ac ymgysylltiad gweithredol ein staff. Eu hymrwymiad i ansawdd sy'n gyrru llwyddiant y Coleg. Mae perfformiad y Coleg yn arolygiad diweddaraf Estyn yn 2017 yn dyst i ragoriaeth ein staff ym mhob maes o'r Coleg, gan anelu at fod y gorau y gallwn fod, ym mhopeth a wnawn.

**AB: Dyfarniadau Estyn – Ionawr 2017**

| **Dangosydd Ansawdd** | **Dyfarniad** |
|---|---|
| **Dyfarniad Perfformiad Cyfredol:** | Da |
| **Rhagolygon ar gyfer Dyfarniad Gwella** | Rhagorol |
| **Cwestiwn Allweddol 1 – Canlyniadau** | Da |
| 1.1 Safonau | Da |
| 1.2 Lles | Da |
| **Cwestiwn Allweddol 2 – Darpariaeth** | Da |
| 2.1 Profiadau Dysgu | Da |
| 2.2 Addysgu neu Hyfforddiant | Da |
| 2.3 Gofal, Cymorth ac Arweiniad | Rhagorol |
| 2.4 Amgylchedd Dysgu | Rhagorol |
| **Cwestiwn Allweddol 3 – Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | Rhagorol |
| 3.1 Arweinyddiaeth | Rhagorol |
| 3.2 Gwella Ansawdd | Da |
| 3.3 Gweithio mewn Partneriaeth | Rhagorol |
| 3.4 Rheoli Adnoddau | Da |

## 3. Cyfrannu at ranbarth ac economi'r De Orllewin trwy fuddsoddi mewn sgiliau a chymunedau

Mae'r Coleg yn chwarae rhan bwysig yn economi Sir Benfro. Y rôl allweddol o safbwynt economaidd yw gwella sylfaen sgiliau pobl ifanc, gweithwyr yn y gweithle a gwella potensial enillion y rhai sy'n byw yn y sir.

### Ein Cymdogaeth

Mae'r Coleg yn gwerthfawrogi'r gwaith y mae'n ei wneud gydag ysgolion, cyflogwyr a'r gymuned fusnes yn Sir Benfro ac yn sylweddoli'r angen i hwn barhau i fod yn faes ar gyfer datblygiad parhaus. Mae gennym rai arferion gwaith rhagorol gydag ysgolion a chyflogwyr yr hoffem eu gweld yn cael eu hailadrodd ar draws pob sector.

Mae'r gwaith ar y cyd a wneir mewn partneriaeth â Folly Farm a'r defnydd o'n canolfan ddysgu ar eu safle ar gyfer dysgwyr Gofal Anifeiliaid Lefel 3, sy'n gweithio gyda'r ceidwaid anifeiliaid arbenigol ar draws y parc i gynyddu eu gwybodaeth am sgiliau hwsmonaeth, yn arbennig o bwysig. Mae ôl troed y Coleg ar faes sioe Llwynhelyg wedi ehangu mewn cydweithrediad â Chymdeithas Amaethyddiaeth Sir Benfro ac wedi cael ei gefnogi gan Sefydliad John Burns. Mae'r ganolfan ar gyfer gweithgareddau dysgwyr Sgiliau Byw'n Annibynnol a chyrsiau Gofal Anifeiliaid yn dangos ymrwymiad y Coleg i'r ddau lwybr pwysig hyn yn y ddemograffeg leol ac yn galluogi dysgwyr i gymryd rhan mewn senarios bywyd go iawn sy'n gysylltiedig â gwella eu sgiliau cyflogadwyedd.

Mae'r gwaith o gyflwyno llwybrau 14-16 i ddisgyblion Ysgol Hari Tudur, Ysgol Greenhill, Ysgol Caer Elen ac Ysgol Aberdaugleddau sy'n dilyn llwybrau i Beirianneg yn parhau gyda'r nod o ehangu cwmpas y llwybrau hyn i gynnwys darpariaeth newydd a gefnogir gan Cronfa Sgiliau a Thalent Bargen Dinas Bae Abertawe..

Yn FY23 gwelwyd defnydd parhaus o adeilad Camrose yng Nghymdeithas Amaethyddiaeth Sir Benfro. Mae'r gofod hwn wedi bod yn amhrisiadwy, gan ganiatáu i'r adran barhau i weithredu a chynhaliodd hyd yn oed dreialon WorldSkills yma. Wedi dweud hynny, mae'r Coleg wedi penderfynu symud y ddarpariaeth yn ôl i'r prif gampws ar gyfer FY24. Mae'r Coleg yn cydnabod cefnogaeth Cymdeithas Amaethyddiaeth Sir Benfro.

Mae'r Coleg yn parhau i gael ei gynrychioli ar Ardal Fenter Dyfrffyrdd y Ddau Gleddau a ailsefydlwyd i amlygu lleoliad Sir Benfro ar gyfer safleoedd ynni newydd posibl. Mae'r Ardal Fenter wedi parhau'n lleoliad deniadol i gwmnïau ynni ac mae'r Coleg yn dymuno sicrhau ei fod yn cyflwyno'r cwricwlwm a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr ynni'r dyfodol. Yn FY23, cyhoeddwyd cyfle cyffrous i Sir Benfro pan gymeradwywyd cais am statws "Porthladd Rhydd". Bydd y Porthladd Rhydd Celtaidd yn darparu llwybr carlam ar gyfer economi sero net Cymru gan gynhyrchu dros 16,000 o swyddi newydd, gwyrdd a hyd at £5.5 biliwn o fuddsoddiad newydd. Mae'r cais trawsnewidiol yn cwmpasu porthladdoedd Aberdaugleddau a Phort Talbot ac yn rhychwantu datblygiadau ynni glân ac asedau arloesi, terfynellau tanwydd, gorsaf bŵer, peirianneg drom a'r diwydiant dur ar draws de-orllewin Cymru. Wrth i'r fenter hon fynd rhagddi, bydd angen i Goleg Sir Benfro fod ar flaen y gad o ran cyflawni'r agenda sgiliau yn y rhanbarth hwn.

Mae'r Coleg hefyd yn bartner ym Mwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro sy'n ceisio cyfrannu at welliant mewn llesiant yn Sir Benfro, gyda'r genhadaeth o gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Cynrychiolir y Coleg ar Fwrdd Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin Cymru, gan ganolbwyntio ar wella lles economaidd a chymdeithasol pobl sy'n byw ac yn gweithio ar draws rhanbarth y de-orllewin.

## Ein Cymdogaeth *Parhad…*

Fel Coleg rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gefnogi ein cymuned leol. Er gwaethaf heriau ariannu, rydym, trwy ffynonellau incwm amgen, wedi gallu cynnal cyfranogiad cymunedol trwy fentrau fel cyllid “Cadw'n Gynnes, Dal ati i Ddysgu”. Rydym hefyd yn darparu gwasanaethau i'r gymuned trwy weithgaredd elusennol a defnydd o ystâd y Coleg ar gyfer grwpiau cymunedol. Ystyrir y Coleg yn Ased Cymunedol ac i annog cyfranogiad ehangach er budd y sir.

O fewn y cwricwlwm, rydym yn parhau i hyrwyddo dinasyddiaeth fyd-eang a phwysigrwydd gwarchod ein hamgylchedd. Mae sgiliau digidol yn bwysicach nag erioed a dysgir sgiliau digidol sylfaenol i bob dysgwr fel rhan o'u cwrs. Hefyd, mae ffocws cynyddol ar y Gymraeg a phwysigrwydd dysgu sgiliau sgwrsio sylfaenol yn y gweithle i gynyddu gwybodaeth dysgwyr i’w gwneud yn fwy dymunol ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol yng Nghymru.

## Ymgysylltu â Chyflogwyr

Mae Strategaeth Cymhelliant Cyflogwyr y Coleg yn canolbwyntio ar sut y gall ein cwricwlwm hyfforddi gweithwyr y dyfodol a sut y gall ein darpariaeth ran-amser gynorthwyo gweithwyr presennol. Gyda dros ddeng mlynedd o brofiad yn darparu ystod o raglenni ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) mae’r Coleg wedi parhau i gefnogi gweithio mewn partneriaeth drwy’r prosiect Cychwyn Arni Cynhwysiant Gweithredol, gan ddarparu cymorth mentora 1-2-1 i’r rhai rhwng 16-24 oed ac sy'n NEET, ac i'r rhai 25 oed a throsodd ac sy'n ddi-waith am gyfnod hir.

Mae'r tîm ymgysylltu â chyflogwyr yn hanfodol i hwyluso'r cysylltiad rhwng yr anghenion sgiliau lleol a chreu gweithlu cynhyrchiol. Trwy ymgysylltu â chyflogwyr, mae'r tîm wedi cefnogi'r Coleg i gyflawni yn erbyn ei dargedau rhan-amser ac yn ogystal, cyflwyno'r Cyfrifon Dysgu Personol (Cyllid LlC) yn llwyddiannus. Cyflawnwyd hyn trwy ymweliadau wyneb yn wyneb (wedi'u hamserlennu a dirybudd), e-byst, ymgyrchoedd marchnata a chyfryngau cymdeithasol.

## Y Biwro Cyflogaeth

Mae ein Biwro Cyflogaeth yn cynnwys Ymgynghorwyr Ymgysylltu Busnes, Profiad Gwaith a Chyflogaeth sy'n gweithio gyda'i gilydd, yn rhannu cyfleoedd a gwybodaeth, i gynorthwyo dysgwyr y Coleg i ddod o hyd i waith rhan-amser yn ystod eu hastudiaethau a chyflogaeth llawn-amser ar ôl cwblhau eu cwrs. Yn ystod FY23 hefyd ymunodd y tîm Menter â'r Biwro i gynorthwyo dysgwyr i ddatblygu eu syniadau busnes. Drwy gydol y flwyddyn parhaodd y Biwro Cyflogaeth i gynnal digwyddiadau recriwtio a oedd o fudd i ddysgwyr a chyflogwyr, tra bod y tîm Profiad Gwaith yn sicrhau bod dysgwyr yn gallu ymgymryd â lleoliadau ystyrlon i wella eu rhaglen astudio a chael profiad gwerthfawr yn y diwydiant. Parhaodd y Biwro Cyflogaeth hefyd i ddarparu gwasanaeth recriwtio am ddim i gyflogwyr lleol, gan hysbysebu eu swyddi gwag i bron i 2,000 o fyfyrwyr llawn-amser. Gweithiodd y tîm yn uniongyrchol gyda dysgwyr mewn ymweliadau dosbarth ac apwyntiadau 1-2-1 yn ogystal ag o bell lle roedd angen sicrhau bod gan ddysgwyr ddealltwriaeth glir o'r farchnad swyddi a'u bod yn cael eu paru â'r cyfleoedd a oedd fwyaf addas iddynt.

Yn ogystal â lleoli dysgwyr gyda chyflogwyr, mae'r tîm Profiad Gwaith hefyd yn gyfrifol am gynnal ymweliadau Iechyd a Diogelwch cyflogwyr. Mae niferoedd a cheisiadau am leoliadau wedi cynyddu ac felly mae ymateb i'r galw hwn bellach yn ffocws.

## 4. Sicrhau Sefydlogrwydd Ariannol Hirdymor

Mae perfformiad ariannol y Coleg yn ystod FY23 yn gryf ac, er ei fod yn ostyngiad ar berfformiad y flwyddyn flaenorol, mae'n parhau i fod yn welliant sylweddol o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Bodlonwyd Dangosyddion Perfformiad Allweddol ac mae'r sefyllfa arian parod yn parhau'n iach. Mae ein strategaeth o fuddsoddiad parhaus yn adnoddau ac isadeiledd y Coleg wedi'i chynnal. Gostyngodd sefyllfa 'cronfeydd net' y Coleg (arian parod llai benthyciadau) £1.6m ar ôl cyfrif am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol o £5m yn y flwyddyn, gyda £3.3m ohono wedi'i ariannu drwy Grantiau Cyfalaf. Mae hyn yn dangos tystiolaeth bellach o'n gallu i fuddsoddi a darparu amgylchedd o ansawdd uchel i gyflwyno addysg a hyfforddiant, mewn cyfnod sy'n parhau i fod yn heriol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gefnogol i'r sector AB ddyrannu nifer o ffrydiau ariannu ychwanegol gan sicrhau bod gennym y gallu ariannol i ymateb i bob her y mae colegau wedi'u hwynebu.

Mae'r Coleg yn gweithredu sawl maes masnachol a ddioddefodd lai o weithgarwch yn ystod ac ar ôl Covid. Mae'r rhan fwyaf o'r meysydd hyn bellach mewn rhyw fath o adferiad er nad yw pob un ohonynt yn ariannol hyfyw eto ond serch hynny maent yn ychwanegu gwerth i ddysgwyr a'u profiad Coleg.

### Dangosyddion Perfformiad

Y dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) yn y tabl isod yw'r prif fesurau a ddefnyddiwyd i werthuso pa mor llwyddiannus y bu'r Coleg yn ei berfformiad ariannol.

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol | Gwirioneddol 31/07/2022 | Gwirioneddol 31/07/2023 |
|---|---|---|
| Enillion cyn llog, treth, dibrisiant ac amorteiddiad (EBITDA) (£'000) | **£2,739** | **£2,343** |
| EBITDA fel % cyfanswm incwm | 6.27% | 5.35% |
| EBITDA fel % cyfanswm incwm (ac eithrio darpariaeth freiniol) | 10.90% | 8.78% |
| Gwarged wedi enillion a cholledion eraill (£'000) | £56 | £1,292 |
| Gwarged wedi enillion a cholledion fel % o gyfanswm incwm | 0.13% | 2.95% |
| Gwarged cyn tâl pensiwn heb fod yn arian parod (£'000) | £2,214 | £2,059 |
| Cronfeydd anghyfyngedig heb bensiwn buddion diffiniedig darpariaeth (£'000) | £16,922 | £19,083 |
| Cronfeydd anghyfyngedig gyda phensiwn buddion diffiniedig darpariaeth (£'000) | £11,481 | £22,727 |
| Dyddiau asedau hylifol net i gyfanswm gwariant | 57 | 45 |
| Cymhareb Gyfredol | 1.65 | 1.73 |
| Cymhareb gerio (benthyca allanol/cronfeydd anghyfyngedig heb bensiwn buddion diffiniedig) | 0.00 | 0.00 |
| Grant LlC fel % o gyfanswm incwm (ag eithrio trydydd ddarpartiaeth freiniol) | 90.43% | 90.61% |
| Cyfanswm gwariant cyflog fel % o gyfanswm incwm (ag eithrio darpariaeth freiniol) | 70.58% | 68.30% |

Mae’r canlyniadau ar gyfer FY23 yn gadarnhaol o ystyried heriau gwledig y sir ynghyd â’r costau cysylltiedig o ddarparu cynnig helaeth o addysg mewn ardal denau ei phoblogaeth, mae hwn yn gyflawniad mawr.

Un o’r prif fesurau a ddefnyddir gan y Coleg i asesu perfformiad ariannol yw ‘EBITDA wedi’i addasu’ (Enillion Cyn Llog, Trethi, Dibrisiant ac Amorteiddiad) (fel y’i cyfrifir ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr tudalen 60). Mae’r ‘EBITDA wedi’i addasu’ yn dileu costau nad ydynt yn arian parod ac untro. Mae'n fesur pwysig ac yn cael ei ystyried yn ddangosydd gwell o berfformiad gweithredu na'r Gwarged/Diffyg a adroddwyd. Mae'r Coleg yn cynhyrchu EBITDA sylweddol bob blwyddyn i sicrhau buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol. Cyflawnwyd hyn drwy reolaeth ariannol dynn a hefyd drwy arloesi a chreadigrwydd wrth drosoli’r cyllid gan Lywodraeth Cymru (sy’n darparu’r rhan fwyaf o’n cyllid) a ffynonellau incwm allanol eraill.

Mae'r Coleg yn adrodd gwarged o £1,292k am y flwyddyn, o gymharu â'r gwarged o £56k a adroddwyd yn FY22. Mae hyn ar ôl cyfrif am £767K (FY22 £2,158k) o addasiadau pensiwn. Gwnaeth y Coleg warged o £2,059k (FY22 £2,214k) cyn rhoi cyfrif am yr addasiadau pensiwn ‘nad ydynt yn arian parod’. Mae'r tabl canlynol yn egluro'r symudiad rhwng yr EBITDA o £2,343k a'r sefyllfa warged o £1,292k.

| | **FY22**<br>**£’000** | **FY23**<br>**£’000** |
|---|---:|---:|
| EBITDA wedi addasu (gweler tudalen 57) | 2,739 | 2,343 |
| Llog Net (Taliad) / Credyd | 27 | 227 |
| Costau ailstrwythuro staff | (44) | (14) |
| Dibrisiant | (1,337) | (1,580) |
| Rhyddhad o grant cyfalaf gohiriedig | 880 | 1,087 |
| (Colled) ar werthiant o asedau gosodedig | (108) | (60) |
| Credyd Pensiwn Uwch | 57 | 55 |
| **Gwarged cyn addasiadau pensiwn ddi-arian** | **2,214** | **2,059** |
| FRS 102 taliad gwasanaeth i gostau staff | (1,836) | (601) |
| FRS 102 taliad llog pensiwn i llog a chostau ariannu arall | (322) | (166) |
| **Gwarged am y flwyddyn** | **56** | **1,292** |

Amlygir dibyniaeth y Coleg ar gyllid Llywodraeth Cymru (LlC) yn y tablau DPA (tudalen 23) lle mae grantiau LlC yn cyfrif am 88.98% o incwm (Cyfanswm Incwm heb gynnwys darpariaeth trydydd parti) i’r Coleg. Mae Strategaeth Ariannol y Coleg yn amlygu pwysigrwydd cynhyrchu ffrydiau incwm heblaw’r rhai sy’n dod yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar adegau o galedi neu ostyngiadau mewn cyllid gan ei fod yn lleihau’r ddibyniaeth a roddwn arno.

Mae’r DPA terfynol yn y tabl (cymhareb Tâl i Incwm) yn dangos bod 68.30% o incwm y Coleg yn cael ei wario’n uniongyrchol ar gostau cyflogau, felly mae cadw rheolaeth ar y rhain yn hollbwysig. Ymhlith y ffactorau sy'n effeithio ar hyn mae natur wledig y Coleg sy'n cael effaith negyddol ar faint dosbarthiadau o'i gymharu â cholegau trefol. Nid yw'r Coleg ychwaith yn elwa o'r arbedion maint y mae'r colegau mwy yn ei wneud.

Daw’r rhan fwyaf o gyllid y Coleg gan Lywodraeth Cymru (LlC) fel cyllid rheolaidd Addysg Bellach. Mae'r grant i'r Coleg yn seiliedig ar faint o addysg a ddarperir. Mae elfen addysg bellach y tabl isod yn dangos cynnydd yn y cyllid ar gyfer FY23 o £1,561k, cynnydd o 12.1% o gymharu â FY22. Mae hyn yn ymwneud ag elfen o gyllid a gariwyd ymlaen o’r flwyddyn flaenorol, cynnydd pris uned o 6.5% ar gyfer setliad dyfarniad cyflog FY23 ynghyd ag 1.5% pellach ar gyfer taliad anghyfunol yn ystod y flwyddyn i’w wneud i staff, ynghyd â chynnydd yn y proffil demograffig.

Cynyddodd incwm Dysgu Seiliedig ar Waith 1% o ganlyniad i ddyraniad contract uwch a’r ffi reoli y mae’r Coleg yn ei hennill am ddal y statws arweinydd contract. Roedd gan werthoedd rhaglenni gynnydd pris o 5% wedi'i gymhwyso o fewn y dyraniad contract uwch. Bu gostyngiad o 8% yn y ddarpariaeth DSW o flwyddyn i flwyddyn oherwydd bod nifer o'r darparwyr partner heb gyrraedd y targed o ran darparu contract.

| **Incwm Grant Llywodraeth Cymru** | **FY19 £’000** | **FY20 £’000** | **FY21 £’000** | **FY22 £’000** | **FY23 £’000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllid Cylchol Addysg Bellach | 11,170 | 11,716 | 11,942 | 12,906 | 14,467 |
| Incwm Dysgu Seiliedig ar Waith | 3,290 | 3,124 | 3,216 | 4,443 | 4,494 |
| **Cyfanswm Grant AB a DSW Coleg Sir Benfro** | **14,460** | **14,840** | **15,158** | **17,349** | **18,961** |
| Incwm Darpariaeth DSW wedi'i Ryddfreinio | 10,740 | 10,897 | 12,193 | 18,432 | 17,005 |
| **Cyfanswm Grant AB a DSW LlC** | **25,200** | **25,737** | **27,351** | **35,781** | **35,966** |

## Ffrydiau Incwm Eraill

Yn ogystal â'r grantiau LlC a restrir uchod, mae'r Coleg wedi derbyn cyllid penodol o £4.4m yn ystod FY23. Dyrennir y grantiau hyn i fynd i'r afael â materion fel Anghenion Dysgu Ychwanegol, Iechyd Meddwl, Cyflenwi Sgiliau Cyflogwyr a datblygiad proffesiynol i staff. Mae'r cronfeydd hyn yn tueddu i fod yn rhai tymor byr ac er mwyn eu tynnu i lawr mae'n rhaid i'r Coleg sicrhau eu bod yn cael eu gwario yn ôl y bwriad ac yn unol â'r canllawiau penodol a gyhoeddwyd. Ni ellir dibynnu arnynt o flwyddyn i flwyddyn ac mae eu cwantwm yn amrywio.

Mae’r Coleg wedi ymrwymo i’w strategaeth cynhyrchu incwm ac fel rhan o’i gynllun i adennill a lleihau dibyniaeth ar incwm LlC, bydd yn mynd ar drywydd ac yn manteisio ar ffynonellau ariannu amgen er mwyn cefnogi datblygiadau arloesol yn unol ag anghenion y dysgwr.

Yn hanesyddol mae cyllid Ewropeaidd wedi bod yn ffrwd incwm bwysig i’r Coleg gan ei alluogi i gefnogi dysgwyr trwy brosiectau fel ‘Cynnydd’ a arweiniwyd gan Gyngor Sir Penfro ac a ddarparodd gefnogaeth i ddysgwyr sydd fwyaf mewn perygl o ddod yn NEET (Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant). Cyflwynodd y Coleg gais am raglen Ffyniant Gyffredin, cyllid y DU yn lle’r cyllid Ewropeaidd, a bu’n llwyddiannus. Bydd y cyllid hwn ar gael o fis Medi 2023 tan fis Rhagfyr 2024 a bydd yn sicrhau bod dysgwyr yn cael cymorth ychwanegol i aros ar eu rhaglen astudio a chyflawni canlyniad eu cymhwyster yn llwyddiannus.

Cyflwynwyd menter y Llywodraeth y cyfeirir ati fel Cyfrifon Dysgu Personol (PLAs) yn ystod FY21 a pharhaodd i mewn i FY23. Y dyraniad cyllid ar gyfer y Coleg oedd £856K ac fe'i darperir i gefnogi uwchsgilio ac ailsgilio gweithwyr cyflogedig.

Derbyniodd y Coleg Gyllid Datblygiad Proffesiynol am y bumed flwyddyn yn FY23. Mae hyn yn galluogi'r Coleg i fuddsoddi mewn addysgu a dysgu a hyfforddi staff mewn meysydd blaenoriaeth, datblygu cyrsiau a/neu gyflwyno yn unol â blaenoriaethau diwydiant rhanbarthol.

## Llif arian

Mae creu gwarged arian parod yn galluogi'r Coleg i fuddsoddi yn ei adeiladau a'i seilwaith. Mae'r Coleg wedi defnyddio'r arian parod y mae wedi'i gynhyrchu dros y pum mlynedd diwethaf, fel a ganlyn:

| | FY19 £'000 | FY20 £'000 | FY21 £'000 | FY22 £'000 | FY23 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Llif arian o weithgareddau gweithredu | 1,170 | 556 | 4,034 | 3,965 | 1,391 |
| Llif arian o Gyfalaf (net grantiau) | (59) | (740) | (1,092) | (1,297) | (3,206) |
| Llif arian o fuddsoddiadau | 24 | 16 | 3 | (2,973) | 227 |
| Llif arian o ariannu | (146) | (135) | (626) | (103) | - |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod** | **989** | **(303)** | **2,319** | **(408)** | **(1,588)** |
| Balans arian parod | | | | | |
| - Cydbwysedd agoriadol | 4,231 | 5,220 | 4,917 | 7,236 | 6,828 |
| - Cydbwysedd cau | 5,220 | 4,917 | 7,236 | 6,828 | 5,240 |

Dros y 5 mlynedd diwethaf mae'r Coleg wedi buddsoddi £19m ar wariant cyfalaf. Ar ôl cyfrifo am y gwariant arian parod net o £3.2m ar wariant cyfalaf yn FY23, mae balans arian parod y Coleg wedi gostwng £1.6m dros y cyfnod.

## Gwariant Cyfalaf

Yn FY19 sicrhaodd Coleg Sir Benfro gyllid Cyfalaf Band B Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygiadau i'r prif gampws a chyfleusterau dysgu o £4.7m. Cwblhawyd y prosiectau Datblygu'r Cwrt a Folly Farm yn ystod FY21 a chwblhawyd y gwaith ar y cyfleuster Peirianneg ym mis Awst 2022. Yn ogystal â'r prosiectau Band B gwreiddiol, daeth datblygiad pellach yn Llwynhelyg a gwblhawyd ym mis Awst 2022 â gwerth prosiectau Band B i £10m. Mae cynigion dilynol ar gyfer gosod ffenestri newydd, ailfodelu cynlluniau gweithdai adeiladu a PV ychwanegol bellach yn dod â chyllid Band B cyffredinol i £14.2m. Mae'r Coleg yn hynod ddiolchgar i gefnogaeth Llywodraeth Cymru i ddod â'r prosiectau hyn i ben a galluogi'r Coleg i gynnal cyfleusterau rhagorol.

Mae lefelau buddsoddi dros y 5 mlynedd diwethaf mewn cynlluniau cyfalaf a rhaglenni cynnal a chadw yn parhau i ddarparu amgylchedd sy'n ffafriol i ddysgu.

| **Gwariant Cyfalaf** | **FY19 £'000** | **FY20 £'000** | **FY21 £'000** | **FY22 £'000** | **FY23 £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Tir ac adeiladau | 774 | 2,702 | 2,340 | 5,724 | 3,843 |
| Offer TG | 394 | 797 | 642 | 455 | 887 |
| Offer eraill | 95 | 130 | 72 | 177 | 183 |
| **Cyfanswm** | **1,263** | **3,629** | **3,054** | **6,356** | **4,913** |

## Mantolen

Mae'r Fantolen i'w gweld ar dudalen 62. Mae'n dangos sefyllfa iach a hylifol, gydag Ased Pensiwn â Budd Diffiniedig wedi'i adrodd o'i gymharu â Rhwymedigaeth fel yr adroddwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Mae asedau cyfredol net wedi cynyddu o £4.7m i £5.6m. Gyda gwariant cyfalaf mawr yn ystod y flwyddyn a chynnydd mewn cyfalaf gweithio, mae sefyllfa arian parod y Coleg wedi gostwng £1.6m i £5.2m. Mae cronfa bensiwn CPLlL yn sefyll ar ased o £3.6m, sy’n welliant sylweddol o’r Rhwymedigaeth o £5.4m ar yr un adeg y llynedd. Mae’r gofyniad adrodd ar hyn ar y Fantolen yr un fath ar gyfer pob sefydliad sydd wedi’i gynnwys yn y cynllun hwn, gan gynnwys awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill. Nid yw tybiaethau actiwaraidd a ddefnyddir i gyfrifo’r prisiad, fel y ffactor disgownt a’r CPI, o fewn rheolaeth y Coleg nac yn adlewyrchiad o’i berfformiad.

## 5. Darparu amgylchedd cynhwysol, cynaliadwy a diogel i ddysgwyr, staff a'r gymuned

### Iechyd a Diogelwch

Yn FY23 ymgymerwyd â'r ymyriadau rhagweithiol canlynol:

- Defnyddir Teithiau Uwch Reolwyr fel cyfle i drafod iechyd a diogelwch gyda dysgwyr, ac i sicrhau bod uwch reolwyr yn deall pa beryglon sy'n bresennol.
- Lansiwyd rhaglen arolygu Iechyd, Diogelwch a Chynaliadwyedd newydd i Reolwyr Maes Cwricwlwm (CAM) yn nhymor 1. Cynhyrchodd arolygiadau gamau gweithredu gwerthfawr a chawsant eu harwain gan y CAMs. Cafwyd adborth defnyddiol gan Benaethiaid Cyfadran a CAMs am y rhaglen.
- Cwblhawyd archwiliadau o'r System Rheolaeth Amgylcheddol, ymweliadau addysgol, asesiadau risg cyfunol, anwytho dysgwyr a gwirio a monitro Dysgu Seiliedig ar Waith.
- Cynhaliodd TIAA archwiliad o ymweliadau addysgol gan ganfod Sicrwydd Rhesymol. Nododd yr archwiliad gamau gweithredu sydd wedi'u rhoi ar waith a gwnaed gwelliant amlwg o ran prydlondeb cyflwyno dogfennau cynllunio. Cynhaliodd TIAA hefyd archwiliad mewnol o reoli risg a ddaeth o hyd i Sicrwydd Sylweddol.
- Cynhaliwyd arolygiad Hylendid Bwyd gan adran Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir Penfro a chynhaliodd y Coleg ei sgôr hylendid bwyd lefel 5.
- Ffocws hyfforddiant staff oedd hyfforddiant ymweliadau addysgol ar gyfer diweddaru neu i ddechreuwyr newydd, swyddogion tân, defnydd ymarferol o ddiffoddwyr tân, hyfforddiant rheolwyr ar ddyletswydd ar gyfer rheolwyr newydd a hyfforddiant i CAMs ar y rhaglen arolygu CAM IGC newydd.
- Mae Cynllun Gwella HSE yn ymwneud â gwelliant parhaus ac felly nid oes unrhyw gamau gweithredu hanfodol i ddiogelwch ar y cynllun. Gwnaed cynnydd da ar y cynllun eleni.
- Cyflwynodd y Coleg ei ddata digwyddiadau fel rhan o ymarfer meincnodi Cymdeithas y Colegau (AoC), a chafwyd adroddiad terfynol yn ôl. Dengys yr adroddiad mai ni oedd yr unig goleg yng Nghymru i gymryd rhan yn yr ymarfer hwn. Yn galonogol, mae ein proffil adrodd am ddigwyddiadau yn unol â cholegau eraill sydd â niferoedd tebyg o staff a dysgwyr.

Mae'r duedd gyffredinol ar gyfer digwyddiadau bach yn parhau'n isel o'i chymryd yng nghyd-destun nifer y dysgwyr, aelodau'r cyhoedd, contractwyr a staff ar y safle ar unrhyw un adeg. Roedd digwyddiadau'n cael eu hadrodd i'r Uwch Dîm Rheoli yn wythnosol ac i'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch i'w trafod. Derbyniodd penaethiaid cyfadran/adran a Rheolwyr Maes Cwricwlwm e-byst ynghylch unrhyw ddigwyddiadau yn eu cylch gorchwyl.

| **Nifer y digwyddiadau a adroddwyd** | **FY19** | **FY20** | **FY21** | **FY22** | **FY23** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 140 | 129 | 64 | 154 | 143 |

Adroddwyd am un digwyddiad i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch dan RIDDOR. Cafodd dysgwr o Goleg Sir Benfro yn Academi ILS Llwynhelyg doriad bys. Roedd ganddi ei llaw ar ffrâm y drws pan gaeodd drws awtomatig yn gyflym ar ei bys. Gweinyddwyd Cymorth Cyntaf, mynychodd yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys a chafodd yr holl drysau yn yr academi eu harchwilio a'u haddasu.

**Cynaladwyedd**

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i carbon sero net erbyn 2030 ar gyfer cwmpasau 1 a 2. Mae hwn yn darged hynod uchelgeisiol a fydd yn cymryd amser, ymdrech a chyllid i'w gyflawni ond mae'r Coleg yn angerddol ac yn teimlo rhwymedigaeth foesol i gyfrannu at yr ymdrech fyd-eang, yn enwedig nawr ar yr adeg dyngedfennol hon yn y newid yn yr hinsawdd. Mae strategaeth yn cael ei datblygu, a fydd yn gweithredu fel fframwaith i weithio tuag at y targed. Mae angen gwneud rhagor o waith i nodi'r holl gyfleoedd ar gyfer lleihau carbon a symud tuag at dechnoleg carbon sero net a fydd angen gwasanaethau ymgynghorydd arbenigol.

Mae Coleg Sir Benfro yn gwella'r gwaith o gofnodi, monitro ac adrodd ar ei allyriadau carbon yn barhaus. Mae’r Coleg yn cymryd rhan yng Nghanllawiau Adrodd Carbon sero net Sector Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ac ar hyn o bryd dyma’r unig goleg sy’n cymryd rhan yn y cynllun. Mae'r canllawiau a'r adborth yn helpu'r Coleg i ehangu ei ffin cyfrifo carbon i gynnwys allyriadau carbon ehangach (Cwmpas 3) o'i gadwyn gyflenwi ac yn y dyfodol, gweithio gartref ac ati. Gwelliant yn FY23 oedd cynnal arolwg cymudo gweithwyr a chynnwys y data hwn yn yr adroddiad allyriadau carbon. Drwy wella ac ehangu cywirdeb a chwmpas allyriadau carbon, bydd y ffigur allyriadau carbon cyffredinol yn codi nes bod y mesurau cofnodi wedi'u hen sefydlu.

Isod mae crynodeb byr o allyriadau carbon ar gyfer FY22 a FY23

| | **FY22 (KgCO2e)** | **FY23 (KgCO2e)** |
|---|---|---|
| Prif Gampws (yn cynnwys trydan, nwy, dŵr, fflyd) | 650,669 | 565,693 |
| MITEC (yn cynnwys trydan, nwy, dŵr) | 22,016 | MITEC (adeilad peirianneg bellach ar y prif gampws) |
| Uned Gofal Anifeiliaid ac Academi Llwynhelyg (gan gynnwys trydan a dŵr) | 7,557 | 7,717 |
| Folly Farm (yn cynnwys trydan a dŵr) | 535 | 514 |
| Teithio Busnes | 44,501 | 68,091 |
| Gwastraff | 53,797 | 38,436 |
| ***Cyfanswm*** | ***779,075*** | ***680,451*** |
| Llai o Ddefnydd Tir | (4,336) | (4,336) |
| ***Cyfanswm – Defnydd Tir*** | ***774,739*** | ***676,115*** |

O ran gwahaniaethau gweithredol rhwng y 2 flynedd, disodlwyd MITEC gan yr adeilad peirianneg newydd a ddaeth i rym ym mis Medi 2022 ac yn FY22 roedd y Coleg wedi ymestyn oriau agor ar gyfer addysgu tan 5pm.

**Cynaladwyedd** ***Parhad…***

Ceir crynodeb o allyriadau cwmpas isod.

| | 21/22 (KgCO2e) | 22/23 (KgCO2e) |
|---|---|---|
| Cwmpas 1 | 339,805 | 309,883 |
| Cwmpas 2 | 337,492 | 260,904 |
| Cwmpas 3 | 101,778 | 109,664 |
| ***Cyfanswm*** | ***779,075*** | ***680,451*** |

*Allyriadau Cwmpas 1 – allyriadau uniongyrchol o ffynonellau y mae cwmni'n berchen arnynt neu'n eu rheoli.*
*Allyriadau Cwmpas 2 – allyriadau anuniongyrchol o drydan, ager, gwres ac oeri a brynwyd.*
*Allyriadau Cwmpas 3 – yr holl allyriadau eraill sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cwmni.*

Mae'r Coleg wedi gwneud dechrau da tuag at y targed hwn ac mae wedi bod yn gweithio'n frwd i leihau allyriadau carbon ers 2002, trwy fentrau arbed ynni. Mae'r Coleg hefyd yn ystyried effaith ehangach newid hinsawdd gan gynnwys bioamrywiaeth. Mae enghreifftiau o fentrau arbed carbon a bioamrwyiaeth isod (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Gosod boeleri nwy mwy effeithlon
- Systemau Rheoli Adeiladau
- Newidiadau gweithredol i'r ffordd y mae'r Coleg yn rhedeg
- Gosod technoleg werdd mewn adeiladau newydd ac adeiladau presennol gan gynnwys pympiau gwres ffynhonnell aer a phaneli solar
- Buddsoddiad sylweddol i newid goleuadau ar draws yr ystâd
- Caffael yr holl drydan drwy dariff gwyrdd ers 2018
- Gwella canran y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu
- Lleihau maint yr argraffu a wneir
- Plannu dôl blodau gwyllt
- Campws cyfeillgar i ddraenogod, wedi'i ardystio i lefel Efydd ar hyn o bryd ac yn anelu at lefel Arian yn 2023/24
- Mentrau 'Mai Didor' ac ati

Yn FY23 gwnaed y gwaith canlynol:

- Gosodwyd ffenestri newydd o safon uchel yn lle'r ffenestri gwreiddiol. Bydd y cam olaf yn cael ei gwblhau yn ystod hanner tymor mis Hydref 2023
- 200Kw o PV solar wedi'i osod ar brif adeilad y Coleg
- Fel rhan o adeiladu'r adeilad peirianneg gosodwyd pwmp gwres ffynhonnell aer ac 85Kw o PV
- Fel rhan o'r gwaith o adeiladu adeilad yr academi yn Llwynhelyg (cwblhawyd ym mis Awst 2022) fe'i cynlluniwyd ar gyfer gweithrediad Sero Net ac mae ganddo bwmp gwres ffynhonnell aer, 50Kw o solar PV a gwellwyd yr inswleiddiad thermol i gyflawni gwerthoedd U
- Cwblhawyd dôl blodau gwyllt o flaen giatiau'r Coleg
- Codwyd twnnel polythen i ddysgwyr Sgiliau Bywyd dyfu a gwerthu llysiau
- Cerbydau tanwydd ffosil wedi'u cyfnewid am gar a fan trydan

Mae rhagor o wybodaeth am y cynnydd tuag at garbon sero net a'r camau a gymerwyd i'w gweld yn nogfennau cynaliadwyedd y Coleg, y System Rheolaeth Amgylcheddol ac adroddiadau blynyddol.

Mae’r Coleg wedi’i ardystio i Lefel 5 (yr uchaf) o Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd ers tua 12 mlynedd ar ôl datblygu system rheoli amgylcheddol y Coleg a symud i fyny drwy lefelau’r safon. Rhoddir ardystiad trwy archwiliad blynyddol.

Mae Pwyllgor Gweithredol y Dysgwyr newydd wedi’i sefydlu sy’n cynnwys penodi dau Lysgennad dros yr Amgylchedd. Bydd Pwyllgor Gweithredol y Dysgwyr hefyd yn sefydlu pwyllgor cynaliadwyedd y dysgwyr i sicrhau bod dysgwyr yn ymwneud â chynaliadwyedd a'r amgylchedd.

Mae’r Coleg yn aelod o Grŵp Newid Hinsawdd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro (BGC) ac mae’n cydweithio ag aelodau i weithio tuag at Sir Benfro Carbon Sero Net.

**Adroddiad Estyn ar Reoli Adnoddau**

Dyfarnwyd Amgylchedd Dysgu’r Coleg i fod yn Rhagorol yn arolygiad diweddaraf Estyn.

Nododd yr adroddiad:

“Mae holl adeiladau a chyfleusterau’r Coleg yn darparu cyfleusterau dysgu ac ystafelloedd dosbarth o safon uchel i ddysgwyr, gyda mynediad da at TGCh ac adnoddau. Ceir cysylltedd rhyngrwyd da sy'n galluogi dysgwyr i ddefnyddio eu dyfeisiau eu hunain, ac mae'r Coleg yn darparu meddalwedd i bob dysgwr. Mae gan ddysgwyr ystod eang o opsiynau dysgu sy'n eu helpu i ddatblygu cymhwysedd digidol. Mae bron pob un o'r gweithdai a'r ystafelloedd dosbarth arbenigol yn cynnwys offer modern safon diwydiant sy'n bodloni anghenion dysgwyr yn dda. Mae ystafell ddosbarth mewn canolfan farchogaeth leol wedi'i chyfarparu'n dda ag adnoddau TGCh a dysgu 3D. Mae’r Coleg wedi datblygu ystafell reoli rithwir eithriadol sy’n galluogi dysgwyr i efelychu ystod eang o weithrediadau rheoli prosesau diwydiannol mewn amgylchedd realistig.”

O ran rheoli adnoddau, dyfarnwyd hyn i fod yn Dda. Roedd yr adroddiad yn nodi’r meysydd canlynol:

- Mae'n ail-fuddsoddi arbedion yn rheolaidd, e.e. £750k o gostau ynni is, i wella gwasanaethau a darpariaeth y Coleg ymhellach
- Yn ystod cyfnod o lai o gyllid, mae'r Coleg wedi cynyddu ei gronfeydd wrth gefn, gan ei alluogi i fuddsoddi mewn adeiladu darpariaeth newydd trwy baru Cronfa Cymunedau Cynaliadwy LlC i gyflawni ei nodau strategol o gefnogi dysgwyr lleol
- Mae'r Coleg yn rhoi ystyriaeth dda iawn i gynaliadwyedd ac effeithlonrwydd ynni wrth reoli ei ystâd. Er enghraifft, mae wedi lleihau ei ôl troed carbon tua thraean yn y flwyddyn ddiwethaf
- At ei gilydd, mae canlyniadau ar gyfer dysgwyr yn dda ac mae'r Coleg yn cynnig gwerth da am arian

Yn ogystal, mae celloedd ffotofoltäig wedi’u hariannu drwy gymorth ariannol Di-Garbon Net gan Lywodraeth Cymru a fydd yn lleihau defnydd y Coleg o drydan a brynir yn allanol gan 30%.

Dechreuodd y Coleg ar weithredu ei Strategaeth Ystadau 5 mlynedd, sydd wedi derbyn cymeradwyaeth Achos Busnes Llawn gan Lywodraeth Cymru, gyda’r Coleg yn llwyddo i gael 65% o gyllid Band B tuag at hyn. Mae'r Coleg wedi cyflawni nifer o brosiectau strategol allweddol, ar amser ac o fewn y gyllideb, mewn perthynas â'i Strategaeth Ystadau dros y tair blynedd diwethaf. Mae hyn wedi cynnwys creu llety mwy hyblyg ar gyfer dysgu ac addysgu a darparu gofod ffreutur a gofod cymdeithasol ychwanegol ynghyd â gwelliannau i’r Ganolfan Adnoddau Dysgu a’r HWB a gwblhawyd ym mis Ionawr 2021, a wnaed yn ystod anterth y pandemig. Cwblhawyd yr adeilad Peirianneg newydd ar amser ar gyfer agor ym mis Medi 2022. Llwyddodd y Coleg hefyd i gael cymeradwyaeth a 75% o gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Canolfan Sgiliau Byw’n Annibynnol newydd sydd wedi’i chwblhau a’i hagor yn Llwynhelyg, ochr yn ochr â chanolfan gofal anifeiliaid y Coleg.

## 6. Cyflawni Llywodraethu a Rheolaeth o'r Radd Flaenaf

### Rhanddeiliaid Eraill

Cyflwynodd y Bwrdd gorff aelodaeth yn ôl yn FY14 - Fforwm Ymgynghorol Coleg Sir Benfro. Mae gan y Fforwm hwn gynrychiolwyr o blith ein rhanddeiliaid yn Sir Benfro a thu hwnt, gan gynnwys Cyrff Masnach, y Siambr Fasnach, Addysg Uwch a DWP. Mae'r Fforwm hwn, sy'n cael ei gadeirio ers mis Mawrth 2023 gan Wendy Goldsworthy a'r 2 flynedd flaenorol gan Helen Murray, wedi bod o fantais sylweddol i'r Coleg dros y 9 mlynedd diwethaf, mewn rôl ymgynghorol, ac wrth sicrhau perchnogaeth a chyfranogiad cymunedol, yn nyfodol y Coleg.

Cymerodd Iwan Thomas yr awenau fel Cadeirydd Bwrdd y Gorfforaeth ym mis Awst 2021.

Roedd gennym ddau fyfyriwr lywodraethwr yn gwasanaethu ar y Bwrdd yn FY23. Penodwyd Samuel Lowe (dysgwr Lefel A) a Jake Aldred (dysgwr galwedigaethol) i'r Bwrdd, yn dilyn eu hethol gan gyd-ddysgwyr. Ar gyfer FY24 mae gan y Bwrdd ddau fyfyriwr lywodraethwr newydd, Bradley Cole a Tomos Padel (y ddau yn ddysgwyr Lefel A). Mae Pwyllgor Gweithredol y Dysgwyr newydd wedi'i greu ar gyfer FY24, a gaiff ei arwain gan y ddau Fyfyriwr Lywodraethwr i wella llais y dysgwr ymhellach ar y Bwrdd a thrwy'r Coleg a'r gymuned ehangach.

## 7. Bod yn Goleg sy’n Gwerthfawrogi ac yn Buddsoddi yn yr holl Staff

Mae gan y Coleg staff cymwys iawn sydd â phrofiad a gwybodaeth am y diwydiant sy'n canolbwyntio ar gefnogi a sicrhau bod ein dysgwyr yn cael profiad o ansawdd uchel.

Mae llwyddiant ein dysgwyr yn y pen draw oherwydd ein staff ac rydym yn ffodus i gael gweithlu ymroddedig sy'n ymdrechu i roi'r cyfle i'n dysgwyr gyflawni eu potensial.

Mae Coleg Sir Benfro yn sefydliad uchelgeisiol, sy’n falch o ansawdd yr addysgu a’r dysgu a’r cymorth y mae’r Coleg yn ei ddarparu i’w holl staff. Ein nod ar y cyd yw gwella profiad ein dysgwyr a'r canlyniadau y maent yn eu cyflawni.

Wrth ddatblygu arferion pobl, rydym yn meithrin balchder a dyhead ein staff, yn helpu i ganolbwyntio arno ac yn cynyddu amlygrwydd holl lwyddiannau’r Coleg. Ein nod yw denu staff sy'n gwerthfawrogi'r cyfle i ddatblygu a rhannu gwybodaeth o fewn amgylchedd agored a thryloyw, cefnogol ac ysbrydoledig. Wrth wneud hynny mae gennym y blaenoriaethau a ganlyn:

- recriwtio a chadw’r staff gorau
- talu staff yn deg
- datblygu ymgysylltiad cadarnhaol a moral staff
- datblygu diwylliant perfformiad uchel ac uchelgeisiol
- hyrwyddo amgylchedd diogel, iach a chyfartal lle mae staff yn cymryd agwedd ragweithiol at eu lles eu hunain

Mae staff wedi nodi'r gwerthoedd y credwn y dylent lywio'r Coleg trwy gyfnod y cynllun strategol hwn. Mae’r gwerthoedd hyn, sy’n diffinio ethos, diwylliant ac ymddygiad y Coleg, ein staff a’i ddysgwyr wedi’u crynhoi gan y cefnenw ‘PEOPLE’ sy’n cynrychioli’r canlynol:

**P E O P L E**

| | |
|---|---|
| **Positifrwydd:** | bod yn gadarnhaol ac ymatebol, annog pawb i fabwysiadu ymagwedd o'r fath ym mhopeth a wnânt |
| **Cydraddoldeb:** | wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd cynhwysol a diogel sy'n parchu amrywiaeth ei staff a'i ddysgwyr. Rydym yn cefnogi ac yn hyrwyddo strategaethau gwrth-wahaniaethu ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig |
| **Cyfle:** | gwneud pob cyfle yn bosibl o ran addysg i gymuned ein Coleg |
| **Potensial:** | ein nod nid yn unig yw cyflawni potensial ond mynd y tu hwnt i bob disgwyl |
| **Gwrando:** | rydym yn gwrando ar ddysgwyr, staff, cyflogwyr ac aelodau o’r gymuned er mwyn sicrhau diwylliant agored a chynhwysol |
| **Rhagoriaeth:** | anelu at ragoriaeth ac ymdrechu i fod yn Ganolfan Rhagoriaeth Dysgu ac Addysgu |

**Cydraddoldeb Tâl**

Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) 2017, yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sy'n cyflogi mwy na 250 o weithwyr ddarparu adroddiad blynyddol yn dangos y bwlch cyflog rhwng eu gweithwyr gwrywaidd a benywaidd. Nid oes dyletswydd statudol ar golegau yng Nghymru i gyhoeddi'r data hwnnw ond mae Coleg Sir Benfro wedi dewis gwneud hynny.

Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yw'r gwahaniaeth rhwng enillion cyfartalog dynion a menywod. Mynegir unrhyw fwlch fel canran o enillion dynion.


Mae canran gadarnhaol yn dangos bod gan fenywod, ar gyfartaledd, gyflog is na dynion. Byddai canran negyddol yn dangos bod gan ddynion, ar gyfartaledd, gyflog is na merched.

Mae'n ofynnol i'r Coleg ddarparu:

- Y gwahaniaeth mewn cyflog cymedrig rhwng y rhywiau
- Y gwahaniaeth mewn cyflog canolrifol rhwng y rhywiau
- Nifer y dynion a'r merched ym mhob chwartel o'r ystod

| Bwlch Cyflog wedi'i Gyfrifo | **Cymedr** | **Canolrif** |
|---|---|---|
| Coleg Sir Benfro | 9.8% | 6.2% |

**Rhyw Wedi'i Rannu yn ôl Chwartel**




Mae'r chwartelau cyflog yn cael eu paratoi drwy drefnu'r holl weithwyr yn ôl eu tâl fesul awr ac yna eu rhannu'n chwartelau o'r rhai ar y cyflogau isaf yn y 'Chwartel Isaf' i'r rhai sy'n cael y tâl uchaf yn y 'Chwartel Uchaf'. Mae'r llinell ddu yn cynrychioli'r rhaniad cyffredinol gwirioneddol o wrywod a benywod sy'n gweithio yn y Coleg – Benyw 66% Gwryw 34%. Mae'r chwarteli hefyd yn cael eu didoli i ddangos y dosbarthiad rhwng gwrywod a benywod. Bydd cymharu rhaniad y chwartel gyda rhaniad Cyffredinol y Coleg yn pennu a yw gweithwyr gwrywaidd neu fenywaidd yn cael eu gorgynrychioli o fewn y chwartel hwnnw. Mae'r graff yn dangos bod Benywod yn y Coleg yn cael eu gorgynrychioli yn y chwartelau isaf tra bod gwrywod yn cael eu gorgynrychioli yn y chwartelau uchaf.

Mae gweithredu isafswm cyfradd cyflog y Sefydliad Cyflog Byw Cenedlaethol y mae'r Coleg wedi ymrwymo iddo, wedi creu strwythur mwy gwastad ar gyfer nifer fawr o weithwyr yn y chwartel cyflog isaf.

Mae gan Goleg Sir Benfro system gyflog deg a thryloyw sy'n defnyddio'r 'Matrics Cyflogau Cychwynnol' y cytunwyd arno'n genedlaethol, gyda cholofnau cyflog strwythuredig (yn achos colofn gyflog Darlithio, y cytunwyd arnynt yn genedlaethol â'r Undebau Llafur cydnabyddedig). Mae penodiad i unrhyw rôl yn seiliedig yn wrthrychol ar gymwysterau, sgiliau a phrofiad waeth beth fo'u rhyw.

**Cydraddoldeb ac Amrwyiaeth**

Mae'r Coleg yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn croesawu ei gyfrifoldebau deddfwriaethol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Yn strategol, rydym yn anelu at gymuned coleg sy'n deg, yn gynhwysol ac sydd â ffocws pobl, sy'n parchu ac yn gwerthfawrogi ein gilydd.

Cydnabyddir talent, sgiliau a gwybodaeth pob unigolyn sy'n ffactor allweddol sy'n cyfrannu at gyflawni safonau rhagorol. Crëir amgylchedd sy’n parchu amrywiaeth y staff a’r dysgwyr ac sy’n eu galluogi i gyflawni eu llawn botensial, i gyfrannu’n llawn ac i gael y budd a’r mwynhad mwyaf o’u rhan ym mywyd y Coleg.

Mae'r Coleg yn annog ethos cynhwysol cadarnhaol gydag ymrwymiad ar y cyd i herio ac atal stereoteipio, rhagfarn a gwahaniaethu; dathlu a pharchu amrywiaeth a gwahaniaeth ar draws pob agwedd ar fywyd y Coleg; a sicrhau mynediad cyfartal i gyfleusterau a buddion y Coleg.

Mae’r Coleg wedi ymrwymo i driniaeth gyfartal ar gyfer pob gweithiwr a dysgwr ar sail un neu fwy o’r nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Oedran
- Anabledd
- Bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil
- Beichiogrwydd, mabwysiadu, mamolaeth a thadolaeth
- Crefydd, cred neu ddiffyg crefydd neu gred
- Hil, cenedligrwydd, treftadaeth ethnig neu genedlaethol
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Trawsrywioldeb

Fel darparwr cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg, rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ein staff a'n dysgwyr. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd dysgu a gweithio teg a chydgefnogol i’n dysgwyr a’n staff, ac adlewyrchir hyn yng ngwerthoedd craidd y Coleg ac yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

## 8. Rhagolygon y Dyfodol

### Tirwedd sy’n Newid

Mae Coleg Sir Benfro ar fin cynnig dyfodol addawol i’r cenedlaethau sydd i ddod yn ein rhanbarth. Gyda thwf diweddar, o ran seilwaith ffisegol ac adnoddau ariannol, rydym mewn sefyllfa eithriadol i ddarparu addysg o ansawdd uchel i bobl Sir Benfro a De Cymru.

Mae wyneb ein darpariaeth addysg bellach yn y sir wedi newid ac rydym bellach yn pontio dysgwyr ôl-16 o Ysgol Bro Gwaun, Ysgol Penrhyn Dewi ac Ysgol Aberdaugleddau. Mae’r ystod o bynciau Lefel-A a gynigir i’r dysgwyr hyn mewn un lleoliad, y ffocws ar gefnogaeth a’r trefniadau cydweithredol rhwng y Coleg a’r ysgolion yn golygu y bydd y dysgwyr hyn yn cael y cyfleoedd gorau oll y gallwn eu cynnig i’w helpu i symud ymlaen yn eu dewis gyrfa. Mae datblygiad trawsnewid yr atriwm wedi bod yn ganolog i ddarparu amgylchedd cyfoes i ddysgwyr gymdeithasu ac astudio.

Mae'r Coleg wedi arwyddo Cynghrair Strategol gyda Choleg Sir Gâr gyda'r bwriad o gydweithio'n agos i sicrhau'r buddion mwyaf posibl i ddysgwyr yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Mae staff o’r ddau goleg yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd i weithio ar feysydd fel addysgu a dysgu, digideiddio a datblygu’r cwricwlwm ac mae’r manteision i’w gweld eisoes mewn nifer o’r meysydd hyn.

Mae Addysg Uwch yn parhau i fod yn agwedd bwysig ar ddarpariaeth y Coleg, gan alluogi dysgwyr i gael mynediad at gymwysterau lefel 4 ac uwch yn lleol i gynyddu eu siawns o ddilyniant cyflogaeth a photensial enillion. Mae partneru â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn y Conffederasiwn â cholegau eraill yn y sector AB yn golygu y byddwn yn gallu gweithio ar y cyd pan fydd y cyfleoedd mewnfuddsoddi posibl yn cychwyn e.e. ynni adnewyddadwy ar y môr a'r ysbyty newydd arfaethedig ar gyfer y ffin rhwng Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin.

### Polisïau Llywodraeth Cymru

Ym mis Hydref 2017, cwblhaodd LlC ymgynghoriad ar ‘Fudd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – Adeiladu sector AHO diwygiedig’. Cynigiodd yr ymgynghoriad hwn y dylid sefydlu corff trosfwaol ar gyfer yr holl addysg a hyfforddiant ôl-16, hyd braich o’r Llywodraeth. Bydd y corff – a adwaenir fel y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) – yn gyfrifol am gynllunio, ariannu a swyddogaethau eraill a gyflawnir ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addysg ôl-16.

Mae Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2021 bellach wedi cael Cydsyniad Brenhinol. Mae'r Ddeddf yn sefydlu'r Comisiwn ac yn diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Bydd y Comisiwn yn goruchwylio:

- Addysg bellach, gan gynnwys colegau a chweched dosbarth ysgolion
- Addysg uwch, gan gynnwys ymchwil ac arloesi
- Addysg oedolion a dysgu oedolion yn y gymuned
- Prentisiaethau a hyfforddiant

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau â’i rhaglen o ddiwygio addysg i sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn culhau a safonau’n codi. Mae cael pob agwedd ar addysg drydyddol ac ymchwil o dan un corff yn cael ei weld gan Lywodraeth Cymru yn gam hanfodol i’r cyfeiriad hwnnw. Mae’r Gweinidog Addysg wedi penodi Simon Pirotte, Prif Weithredwr Coleg Pen-y-bont ar Ogwr, i fod yn Brif Weithredwr y Comisiwn. Bydd y Comisiwn yn cychwyn yn ffurfiol ym mis Ebrill 2024.

**Ariannu**

Mae Colegau Addysg Bellach yng Nghymru yn parhau i wynebu setliadau ariannu heriol. Ar gyfer FY23, dyrannwyd yr unig gynnydd i'r gyfradd uned ar gyfer cyllid addysg bellach rheolaidd yn seiliedig ar y setliad dyfarniad cyflog. Mae hyn yn rhoi pwysau ar weithgarwch craidd sylfaenol a sylfaen costau'r Coleg, a'r angen i nodi a gweithredu arbedion effeithlonrwydd flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn gefnogol er mwyn i golegau gyflawni cydraddoldeb rhwng cyflogau darlithwyr a chyflogau athrawon ysgol, ar ôl sicrhau bod cyllid ar gael yn FY23 i gefnogi cynnydd mewn costau byw. Mae'r sector yn ddiolchgar am y cymorth hwn ond yn cydnabod y bydd heriau pellach yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

Defnyddir addysg bellach rhan-amser a chyllid seiliedig ar waith yn bennaf i uwchsgilio dysgwyr ac felly maent yn hollbwysig i ffyniant economaidd Sir Benfro. Mae cynnal y lefelau incwm hyn yn bwysig nid yn unig i'r Coleg ond i'r rhanbarth ehangach.

Mae pwysau costau cyflog yn parhau i fod yn destun pryder. Mae cost y contract cenedlaethol ar gyfer yr holl staff darlithio a rheoli, codiadau cynyddrannol blynyddol a chynnydd yng nghyfraddau cyfraniadau pensiwn y cyflogwr yn ychwanegu pwysau sylweddol at ein sylfaen costau.

Mae setliadau ariannol llymach yn ymarferol yn golygu adolygu’r dewis o gyrsiau, cynyddu maint grwpiau, canolbwyntio ar gostau ein darpariaeth cyflogwyr, ceisio ffrydiau incwm amgen o weithrediadau masnachol a dilyn perthnasoedd â sefydliadau eraill. Bydd y gofynion hyn yn nodweddion allweddol o'n gwaith wrth i ni symud ymlaen i FY24. Arwyddion cynnar cyllideb Llywodraeth Cymru yn mynd i mewn i 2024/25 yw y bydd yn rhaid gwneud toriadau cenedlaethol i adennill sefyllfa o ddiffyg o tua £600m yn y gyllideb. Heb os, bydd effaith ar Addysg Bellach ond ni wyddys i ba raddau eto.

Mae rheoli costau wedi ein galluogi i leihau ein sylfaen costau mewn termau real, ond mae hyn yn mynd yn fwy heriol gan fod lefelau chwyddiant yn uchel. Rydym wedi parhau i sybsideiddio gweithgaredd sydd, yn ein barn ni, yn ‘hanfodol’, gan gynnwys gweithredu rhai grwpiau llai o fewn y cynnig Lefel-A ac Addysg Uwch.

Ar lefel fyd-eang, mae goblygiadau Brexit a'r gwrthdaro yn Wcrain yn parhau i gael effaith andwyol. Yn hanesyddol mae ein dysgwyr a chyflogwyr lleol wedi elwa o gyllid Ewrop, ac ym mis Medi 2023 bydd y Coleg yn dechrau derbyn cyllid Ffyniant Cyffredinol ar ffurf prosiect “Cefnogi” sy’n galonogol iawn. Mae'r cyllid hwn yn darparu cymorth bugeiliol i ddysgwyr i sicrhau eu bod yn parhau mewn addysg ac yn cyflawni nod eu cymhwyster yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae’r prosiect yn un cymharol fyr dymor gan y bydd y cyllid yn rhedeg o fis Medi 2023 i fis Rhagfyr 2024 yn unig. Bydd cyllid dilynol yn hanfodol er mwyn gallu cadw'r gwasanaethau cymorth yr ydym yn gallu eu darparu ar hyn o bryd. Y risg arall o golli cyllid ESF yw ei gyfraniad at gyllid contract prentisiaethau LlC. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r asiantaethau perthnasol i ddylanwadu ar ganlyniadau'r ffrydiau ariannu pwysig hyn ar yr hyn y gall y Coleg ei gynnig.

**Ein Dull**

Mae'r Coleg yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni yn erbyn ei amcanion allweddol o: "ddatblygu unigolion medrus, creadigol a llwyddiannus iawn".

O fewn y cyfnod pum mlynedd nesaf, mae Coleg Sir Benfro yn bwriadu datblygu ei bortffolio cwricwlwm, wedi'i arwain gan y saith nod strategol allweddol.

Mae ein cyfeiriad yn ystyried papur "Gweledigaeth ar gyfer Addysg Bellach" Y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a strategaeth a pholisi Llywodraeth Cymru. Mae ein nodau hefyd yn ystyried rhai'r Fargen Ddinesig ar gyfer Rhanbarth Bae Abertawe, Ardal Fenter Dyfrfford y Ddau Gleddau, a Chynllun Cyflogaeth a Sgiliau'r Bartneriaeth Ddysgu Ranbarthol.

Mae'r Nodau Strategol hefyd yn cyd-fynd yn llwyr ag amcanion llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro, sef: lleihau anghydraddoldebau; cefnogi datgarboneiddio; galluogi cymunedau diogel, cysylltiedig a dyfeisgar; a chefnogi twf, swyddi a ffyniant a thrawsnewid i economi wyrddach fwy cynaliadwy. Mae'r nodau a nodir yn cael eu tanategu gan gynllun gweithredol y Coleg. Mae pob cyfadran ac adran yn nodi camau gweithredu sy'n galluogi nodau'r Cynllun Strategol i gael eu cyflawni.

Yn unol â hynny, mae'r Coleg yn bwriadu:

- Cydweithio â Chyngor Sir Penfro i gyflawni'r agenda 14-19.
- Sicrhau twf o 5% yn nifer y dysgwyr (100 o ddysgwyr) a chynyddu canran y dysgwyr lefel 3.
- Cynnal contract Dysgu Seiliedig ar Waith o £25 miliwn ar gyfer y consortiwm sy'n cynnal seilwaith consortiwm B-wbl.
- Deilliant cyfraddau cyrhaeddiad Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith o 88%.
- Dangos lefelau boddhad dysgwyr uwchlaw meincnodau sector o 90% neu well.
- Cynyddu cyfleoedd lleoliadau gwaith a nifer y dysgwyr sy'n cael swyddi trwy'r Biwro Cyflogaeth.
- Cynyddu sgiliau staff academaidd trwy DPP diwydiant yn y gweithle o'r 10% presennol i 30%.
- Cwblhau Strategaeth Sgiliau Digidol 2030 ar draws y Coleg gan sicrhau bod pob dysgwr a phob aelod o staff yn ymgysylltu â thechnoleg.
- Datblygu Prif Gynllun Ystadau wedi'i ddiweddaru sy'n darparu cyfleusterau rhagorol ar gyfer y dyfodol.
- Ceisio cyllid i danategu'r cynllun datblygu ystadau a'r buddsoddiad sydd ei angen i ddwyn ffrwyth.
- Ystyried y cwricwlwm a gynigir, gan sicrhau ei fod yn addasadwy ac yn cwrdd ag anghenion economaidd.
- Chwarae rhan weithredol wrth hyrwyddo'r rhanbarth i fuddsoddwyr allanol a chymryd rôl arweiniol wrth hyrwyddo'r Ardal Fenter a chronni buddion.
- Gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y Coleg yn barod ar gyfer gweithredu'r Bil Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PCET) yn 2024.

COLEG SIR BENFRO
DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 GORFFENNAF 2023
ADRODDIAD BWRDD Y GORFFORAETH

## Rhagymadrodd

Mae'n bleser gan Fwrdd Corfforaeth Coleg Sir Benfro gyflwyno'r adroddiad a datganiadau ariannol archwiliedig Coleg Sir Benfro ar gyfer FY23.

## Bwrdd y Gorfforaeth

Rhestrir yr aelodau a wasanaethodd ar Fwrdd Corfforaeth y Coleg yn ystod y flwyddyn ac ar ôl diwedd y flwyddyn, hyd at ddyddiad llofnodi'r datganiadau ariannol, ar dudalennau 54 a 55.

Rhoddir gwybodaeth reolaidd ac amserol i Fwrdd y Gorfforaeth am berfformiad ariannol cyffredinol y Coleg ynghyd â gwybodaeth arall fel perfformiad yn erbyn targedau ariannu, gwariant cyfalaf arfaethedig, ansawdd a materion yn ymwneud â phersonél. Mae Bwrdd y Gorfforaeth yn cyfarfod bob tymor o leiaf.

Mae Bwrdd y Gorfforaeth yn cynnal ei fusnes drwy nifer o bwyllgorau. Mae gan bob pwyllgor gylch gorchwyl, sydd wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd y Gorfforaeth: Archwilio, Chwilio a Thaliadau, Ansawdd a Safonau a Lefel-Ach.

Mae cofnodion llawn yr holl gyfarfodydd, ac eithrio'r rhai y mae Bwrdd y Gorfforaeth yn eu hystyried yn gyfrinachol, ar gael gan y Swyddog Llywodraethu yng Ngholeg Sir Benfro, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 1SZ.

## Cynghorwyr Proffesiynol

Ymgynghorwyr proffesiynol Bwrdd y Gorfforaeth sy'n rhoi cyngor i aelodau a rheolwyr y Coleg yn ystod y flwyddyn oedd:

| | |
|---|---|
| Archwilwyr Allanol Annibynnol: | PricewaterhouseCoopers LLP<br>Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Statudol<br>1 Ffordd y Brenin<br>Caerdydd CF10 3PW |
| Archwilwyr Mewnol: | TIAA LLP<br>Artillery House<br>Fort Fareham<br>Newgate Lane<br>Fareham<br>Hampshire PO14 1AH |
| Bancwyr: | Barclays plc<br>32 Stryd Fawr<br>Hwlffordd<br>Sir Benfro SA61 2DG |
| | HSBC Bank UK plc<br>5ed Llawr<br>5 Sgwâr Callaghan<br>Caerdydd CF10 5BT |

# ADRODDIAD BWRDD Y GORFFORAETH

## Statws Cyfreithiol

Sefydlwyd y Gorfforaeth o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 at ddiben cynnal addysg a hyfforddiant. Mae’r Coleg yn elusen eithriedig at ddibenion Deddf Elusennau 2011. Mae’r Coleg yn ddarostyngedig i ofynion ychwanegol y Datganiad o Arferion Cymeradwy Cyfrifon ac Adroddiadau gan Elusennau (diwygiedig 2019) a Deddf Elusennau 2011.

## Statws Elusennol a Threth

Mae’r Coleg yn elusen eithriedig at ddibenion Deddf Elusennau 2011 ac nid yw’n atebol i dalu treth gorfforaeth.

## Llywodraethu

Mae gan y Coleg Fwrdd Llywodraethwyr rhagorol ac ymroddedig sy'n parhau i chwarae rhan bwysig yng ngweithrediad y Coleg. Mae presenoldeb da iawn ar y cyfan i gyfarfodydd Bwrdd y Gorfforaeth a chyfarfodydd pwyllgorau, yn ogystal â sesiynau hyfforddi a digwyddiadau eraill.

Darperir gwybodaeth glir a chryno i'r Llywodraethwyr gan uwch reolwyr y Coleg, a chaiff ei herio'n drylwyr lle bo'n briodol. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth dda o'u rôl ac mae Llywodraethwyr Cyswllt wedi'u neilltuo i feysydd cwricwlwm ac adnoddau allweddol.

Mae'r cynllun Llywodraethwyr Cyswllt yn annog pob Llywodraethwr i gyfranogi'n llawnach yng ngweithgareddau'r gyfarwyddiaeth benodol neu faes swyddogaethol penodol y Coleg y mae ef neu hi yn gysylltiedig ag ef. Mae'r cynllun hwn wedi gweithio'n dda iawn ar y cyfan.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn monitro'r adroddiadau archwilio ac unrhyw faterion eraill a gyfeirir ato gan Fwrdd y Gorfforaeth neu Bwyllgorau eraill. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor hwn hefyd yn edrych ar reoli risg a materion cymhleth sy'n effeithio ar y Coleg mewn ymdrech i roi sicrwydd i'r Bwrdd.

Gofynnir i lywodraethwyr ddilyn hyfforddiant yn ogystal â mynychu cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau. Mae'r Llywodraethwyr yn darparu ystod eang o wybodaeth a phrofiad i reolwyr a staff y Coleg. Yn benodol, gall gwybodaeth y Llywodraethwyr am ystadau, iechyd a diogelwch, cyllid, gweithrediadau Awdurdodau Lleol, y sectorau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ac ati, yn aml gynorthwyo twf gweithgareddau’r Coleg. Yn ogystal, treulir amser ar gynllunio strategol a gweithgareddau eraill gan gynnwys mynychu digwyddiadau gwobrwyo a digwyddiadau dysgwyr.

Ar wahân i gadeirio cyfarfodydd y Bwrdd, mae Cadeirydd y Llywodraethwyr yn gyfrifol am reolaeth llinell y Pennaeth a'r Swyddog Llywodraethu. Yn ogystal, cynhelir cyfarfodydd gyda phartneriaid strategol, arolygwyr a chyrff allanol eraill, sy'n gofyn am eu presenoldeb ar ran y Coleg. Ymgynghorant yn rheolaidd gyda'r Pennaeth.

Yn ogystal, cytunodd Bwrdd y Gorfforaeth ar ei strwythur llywodraethu presennol, a ddaeth i rym ym mis Medi 2013. Mae'r strwythur hwn yn ymateb uniongyrchol i'r Adolygiad Llywodraethu yn y Sector Addysg Bellach ac mae wedi arwain at ffocws cynyddol ar ymgynghori a chynnwys y gymuned.

## Prif Risgiau ac Ansicrwydd

Mae'r Coleg wedi nodi un ar ddeg o Risgiau Corfforaethol sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Strategol. Mae'r Tîm Arwain yn adolygu'r Cynllun Rheoli Risg Corfforaethol bob tymor ac wedi graddio'r risgiau. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu'r cynllun rheoli risg llawn yn flynyddol ac yn adolygu unrhyw risgiau newydd a risgiau sy'n dod i'r amlwg pan fyddant yn codi. Mae'r Cynllun yn nodi'r risgiau, yr achos, yr effaith bosibl, y raddfa risg gynhenid, tair llinell o reolaethau amddiffyn a sgôr risg gweddilliol. Mae’r rheolwyr hefyd yn ystyried archwaeth risg y Coleg ar gyfer pob risg, mae hyn yn pennu a yw’r rheolaethau sydd ar waith yn ddigonol i leihau’r risgiau.

Mae'r Grŵp Rheoli Risg yn cyfarfod i adolygu a yw risgiau'n cael eu rheoli'n briodol a chaiff y grŵp hwn ei gadeirio gan y Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Gwasanaethau Cleient a Masnachol. Mae nifer o aelodau dirprwyedig o staff yn eistedd ar y grŵp hwn ac mae'r gwahoddiad hefyd wedi'i estyn i unrhyw aelod o staff sydd â diddordeb. Ym mhob cyfarfod, mae o leiaf un risg gorfforaethol yn cael ei herio gydag ymagwedd ‘dwfn’ i sicrhau bod rheolaethau digonol ar waith ac i roi sicrwydd bod risgiau’n cael eu rheoli.

## Adnoddau Dynol (AD)

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i recriwtio a chadw unigolion medrus a chymwys iawn i gyflawni ei amcanion strategol. Mae'n cydnabod cyfraniad staff fel yr adnodd pwysicaf sydd ei angen i gyflwyno addysg a hyfforddiant ac yn cydnabod yr angen i werthfawrogi a buddsoddi yn yr holl staff. Datblygu polisi ac arfer da i sicrhau bod recriwtio a datblygu staff yn parhau’n flaenoriaeth allweddol er mwyn darparu addysg, hyfforddiant a gwasanaethau cymorth o’r safon uchaf.

Cefnogir gwaith y Coleg gan tua 535 (347 o Fenywod; 188 o Ddynion) o staff llawn-amser a rhan amser ar 31 Gorffennaf 2023 sy’n cyfateb i 400 FTE ar gyfer FY23. Mae staff yn cyflawni nifer o rolau a swyddogaethau academaidd a chefnogi.

Mae arferion rheoli adnoddau dynol effeithiol ar waith ac yn cael eu diweddaru'n barhaus drwy ymgynghori â'r Cyd-Undebau Llafur i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn addas i'r diben. Mae'r Coleg wedi ymrwymo i iechyd a lles staff a dysgwyr ac mae ganddo drefniadau cymorth cynhwysfawr ar waith i hyrwyddo'r ethos hwn. Mae'r Coleg yn falch iawn o fod wedi cynnal ei statws Arweinydd Hyderus o ran Anabledd.

## Cyfathrebu ac Ymgynghori

Mae rheolwyr y Coleg bob amser yn ceisio cynnal cyfathrebu da ar draws y sefydliad ac mae ymgynghori â staff ac undebau llafur yn hollbwysig i sicrhau bod sianeli cyfathrebu da yn cael eu cynnal. Mae cyfarfodydd y Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol gyda'r Undebau Llafur ar y cyd yn parhau bob tymor ac mae cyfleoedd amrywiol trwy arolygon, cyfarfodydd anffurfiol a sesiynau Te a Sgwrs gyda'r Pennaeth yn chwarae rhan bwysig mewn cysylltiadau staff. Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn yn amlach yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf er mwyn sicrhau bod effaith ar staff a dysgwyr yn cael eu hystyried cyn gynted â phosibl. Mae trefniadau cyfathrebu rheolaidd eraill sydd ar waith yn cynnwys bwletinau “Newyddion Diweddaraf y Coleg”, sesiynau briffio i'r holl staff a fforymau trafod ar bynciau penodol. Yn ystod y cyfnod pandemig, cyhoeddwyd Blogiau wythnosol yn uniongyrchol gan y Pennaeth a gafodd dderbyniad da iawn a'u gwerthfawrogi gan staff tra'n gweithio o bell. Mae'r Blogiau wythnosol hyn wedi parhau trwy gydol FY23. Dechreuwyd menter newydd yn FY23 gyda chyflwyniad y Fforwm Staff. Mae'r Fforwm yn cael ei gadeirio gan y ddau Lywodraethwr Staff heb uwch reolwyr yn bresennol ac un o'r nodau yw gwella llais staff ar Fwrdd y Gorfforaeth. Mae'r Fforwm yn cynnwys cynrychiolwyr o bob maes cwricwlwm a thimau cymorth busnes ac mae'n cyfarfod bob hanner tymor. Mae gweithdrefnau adrodd y Fforwm yn cynnwys diweddariadau rheolaidd i'r Uwch Dîm Rheoli ac mae'r Staff Lywodraethwyr yn darparu adroddiad diweddaru i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau, yn ogystal ag adroddiad blynyddol i Fwrdd y Gorfforaeth. Mae'r Fforwm yn gyfle i staff drafod materion y Coleg a rhannu

arfer da, gofynnir hefyd i ymgynghori ar ddogfennau allweddol fel y Cynllun Strategol.

**Cynnwys y Dysgwr**

Mae'r Coleg yn ystyried cyfathrebu da gyda'n dysgwyr yn bwysig iawn ac mae'n sicrhau bod dysgwyr yn cymryd rhan mewn llunio pob agwedd ar fywyd y Coleg. Rheolir hyn yn strategol ac yn weithredol trwy Strategaeth Llais y Dysgwr. Mae gan y Strategaeth ddau brif amcan, sef i ddysgwyr gymryd rhan weithredol yn rheolaeth y Coleg a'u dysgu; ac i reolwyr y Coleg weithredu'n brydlon ar adborth dysgwyr gan greu amgylchedd Coleg sy'n cael ei lywio gan farn ei randdeiliaid allweddol. Mae'r mecanweithiau a ddefnyddir i ysgogi ac annog cyfranogiad dysgwyr yn cynnwys rheoli ymgysylltiad Llais y Dysgwr, Pwyllgor Gweithredol y Dysgwr, cynrychiolwyr cyrsiau dysgwyr, llywodraethwyr sy'n ddysgwyr, aelodaeth dysgwyr o bwyllgorau ffurfiol a Bwrdd y Gorfforaeth. Mae elfen sicrhau ansawdd cynnwys y dysgwr yn cael ei reoli gan Dîm Aspire, sy'n hwyluso arolygon Llais y Dysgwr, gan ddadansoddi'r ymateb a'r data i lywio cynllunio gwelliant.

**Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)**

Mae swyddogaeth Aspire yn gyfrifol am gefnogi timau rheoli'r Coleg i gynllunio, trefnu a gwerthuso anghenion dysgu a datblygu unigol a chyfunol yr holl staff, hwyluso gweithgareddau a digwyddiadau dysgu a datblygu, ymateb i fentrau lleol a chenedlaethol a gofynion statudol. Mae hyfforddi a datblygu staff yn fecanwaith allweddol i sicrhau y gall y Coleg gyrraedd ei dargedau strategol, cyflawni ei gynlluniau a sicrhau gwasanaeth o ansawdd i bob dysgwr. Y Rheolwr Sicrwydd Ansawdd sy'n goruchwylio'r gyllideb DPP/Datblygu Staff ac unrhyw ffrydiau ariannu grant dynodedig yn unol â blwyddyn gyllideb y Coleg. Mae Aspire yn gyfrifol am hybu diwylliant o ddatblygiad proffesiynol parhaus a dysgu proffesiynol, gan sicrhau bod strategaethau dysgu ac addysgu yn gyson ar draws y Coleg. Mae'r Tîm yn rheoli ac yn hwyluso datblygiad staff holl adrannau'r Coleg, gan adlewyrchu anghenion hyfforddi unigol, cwricwlwm, gweinyddol, technegol a rheolaethol er mwyn cyflawni cyfeiriad strategol y Coleg. Mae'r Coleg yn cymryd rhan yn Rhwydwaith Dysgu Proffesiynol De Orllewin Cymru, sy'n galluogi'r Coleg i gydweithio ar brosiectau datblygu gyda cholegau eraill yn y rhanbarth. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr ac amrywiol, gan sicrhau bod y Coleg wrth wraidd datblygiadau rhanbarthol ac arloesi yn y sector.

**Diogelu**

Mae gan y Coleg raglen hyfforddiant diogelu gorfodol ar waith. Mae'n ofynnol i bob aelod o staff fynychu hyfforddiant Diogelu, sy'n gwrs ardystiedig. Ategir hyn gan siaradwyr arbenigol sy'n cyflwyno sesiynau i staff sy'n canolbwyntio ar y risgiau sy'n gysylltiedig â bod yn ymarferydd yn y ddarpariaeth addysg a phwysigrwydd cadw dysgwyr a staff yn ddiogel mewn tirwedd sy'n newid yn barhaus. Mae'r Coleg yn llwyr ddeall ei ddyletswydd mewn perthynas â Diogelu ac yn ei wneud yn "fusnes i bawb" i'w gael yn iawn. Mae Panel Diogelu, sy'n cynnwys Tîm Arwain y Coleg, Llywodraethwr cyswllt a'r Arweinydd Diogelu Dynodedig yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu a thrafod materion diogelu.

**Cydraddoldeb**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gyhoeddi gwybodaeth berthnasol a chymesur sy'n dangos eu bod yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb ac i osod amcanion cydraddoldeb penodol, mesuradwy iddynt eu hunain.

Cyflwynodd Deddf Cydraddoldeb 2010 Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED), lle mae'n rhaid i Gyrff Cyhoeddus ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd ac y maent o dan ddyletswydd gyffredinol i roi sylw dyledus i'r angen i:

**Cydraddoldeb** ***Parhad…***

- dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan Ddeddf 2010;
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt; a
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Mae Coleg Sir Benfro wedi ymrwymo i greu a chynnal amgylchedd gweithio a dysgu cwbl gynhwysol i staff a dysgwyr sy'n deg, yn gadarnhaol, yn gefnogol ac yn rhydd o unrhyw fath o wahaniaethu. Mae'r Coleg wedi ymrwymo i sicrhau cyfle cyfartal i bob dysgwr a staff. Mae'r Coleg yn parchu ac yn rhoi gwerth cadarnhaol ar wahaniaethau mewn hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, ailbennu rhywedd, mabwysiadu, beichiogrwydd a mamolaeth, bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil ac oedran. Mae'n ymdrechu'n galed i gael gwared ar unrhyw rwystrau sy'n rhoi unigolion dan anfantais.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Coleg 2020–2024 yn amlinellu ymrwymiad y Coleg i sicrhau cydymffurfiaeth â'i gyfrifoldebau cyfreithiol. Mae cynnydd y Coleg tuag at gyflawni'r cyfrifoldebau cyfreithiol hyn yn cael ei fonitro gan Bwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sy'n cael ei gadeirio gan Bennaeth y Coleg.

Mae gan y Coleg Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, sy'n cael ei ategu gan ystod o Weithdrefnau Cydraddoldeb perthnasol sy'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig unigol. Cynhelir asesiadau effaith cydraddoldeb ar gyfer holl Bolisïau'r Coleg ac mewn perthynas â phenderfyniadau a wneir yn ei Grŵp Rheoli Cwricwlwm.

Mae cynnydd y Coleg tuag at gyflawni ei gyfrifoldebau cydraddoldeb deddfwriaethol yn cael ei gofnodi mewn Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol a Chynllun Gweithredu, a gyhoeddir ar wefan y Coleg. Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn. Mae'r Coleg wedi ymateb drwy ddrafftio cynllun gweithredu sy'n gweithio tuag at y nod cenedlaethol o fod yn genedl wrth-hiliol erbyn 2030. Mae Rheolwyr y Coleg wedi ymrwymo i'r nod hwn ac yn gweithio tuag at sicrhau bod y Coleg yn cyflawni ei ymrwymiad i fod yn wrth-hiliol.

Mewn perthynas â phob agwedd ar gaffael, mae'r Coleg wedi ymrwymo i God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi. Mae'r Coleg yn disgwyl i'w gyflenwyr ymrwymo i'r Cod Ymarfer i helpu i sicrhau bod arferion cyflogaeth moesegol yn cael eu gweithredu ar draws y gadwyn gyflenwi.

## Datganiad Gwasanaethau Cefnogi Dysgu

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i greu a chynnal profiad dysgu, addysgu a chymorth rhagorol i'w holl ddysgwyr.

Mae dysgwyr yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu'n gyfartal ac yn cael eu hannog i ffynnu a chyrraedd eu potensial, ac i gael y budd a'r mwynhad mwyaf o'u rhan ym mywyd y Coleg.

Mae Coleg Sir Benfro yn creu cyfleoedd i ddysgwyr gyflawni uchelgeisiau personol, addysgol a chyflogaeth, sydd yr un mor berthnasol i ddysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu ac mae'n rhan bwysig iawn o'n hymgyrch i ddarparu cyfle cyfartal i bawb.

Y nod yw darparu amgylchedd dysgu croesawgar ac un sy'n galluogi i gefnogi dysgwyr yn eu hastudiaethau. Mae ein staff wedi cael eu hyfforddi i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn cael pob cyfle i nodi cryfderau personol, datblygu sgiliau ac adnabod a gwerthfawrogi nodau ac uchelgeisiau unigol.

Darperir cyngor, cymorth, offer ac adnoddau arbenigol i ganiatáu mynediad i ddysgwyr ag anawsterau dysgu, anableddau corfforol a namau synhwyraidd, ynghyd ag ystod eang o gyfleusterau addysgol a chymorth i sicrhau bod y Coleg yn bodloni ei rwymedigaethau o dan Ddeddf ADY 2018 a Chod ADY Cymru 2021.

## Cyflogi Pobl Anabl

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i ystyried ceisiadau am gyflogaeth gan bobl anabl, gan gadw mewn cof ddoniau'r unigolion dan sylw. Pan fydd gweithiwr presennol yn dod yn anabl, gwneir pob ymdrech i sicrhau bod cyflogaeth gyda'r Coleg yn parhau. Polisi'r Coleg yw darparu hyfforddiant, datblygiad gyrfa a chyfleoedd ar gyfer dyrchafiad sydd, cyn belled ag y bo modd, yn union yr un fath â'r rhai ar gyfer gweithwyr eraill. Caiff y datganiad hwn ei gadarnhau yn achrediad y Coleg fel Arweinydd Hyderus o ran Anabledd.

## Iechyd a Diogelwch

Mae'r Coleg yn parhau i ymgorffori diwylliant Iechyd a Diogelwch cadarnhaol, a gwneir hyn trwy nifer o fentrau e.e. Teithiau Rheoli. Y llynedd, gwnaed dros 491 o gamau gweithredu a gwelliannau Iechyd a Diogelwch drwy system olrhain camau gweithredu Iechyd a Diogelwch. Cynhelir archwiliadau trylwyr ar sail risg a cheir cydweithrediad da gan reolwyr, yr holl staff a dysgwyr.

## Amgylchedd

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i ddatblygiad cynaliadwy a sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol. Mae'r effaith andwyol ar yr amgylchedd yn deillio o'r defnydd o ynni, trafnidiaeth, cynhyrchu gwastraff a defnydd o ddeunyddiau swyddfa. Mae strategaeth amgylcheddol yn cael ei datblygu er mwyn gwella rheolaeth amgylcheddol a pherfformiad ac i leihau effaith amgylcheddol y Coleg. Mae'r Coleg wedi datblygu Polisi Cynaliadwy ac wedi sefydlu grŵp amgylcheddol i yrru camau gweithredu ymlaen i wella cynaliadwyedd a pherfformiad amgylcheddol.

## Datganiadau Ariannol

Amcanion ariannol ac adolygiad o alldro ar gyfer y flwyddyn

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u nodi o dudalen 60. Fe wnaeth y Coleg alldroi gwarged o £1,292,000 (2.95% o incwm gros) ar gyfer y flwyddyn o'i gymharu â gwarged o £56,000 (0.13% o incwm gros) ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Roedd gweddill y gronfa wrth gefn gyffredinol ar 31 Gorffennaf 2023 yn weddill o £22,727,000 (2022 £11,481,000) gan gynnwys cronfa bensiwn wrth gefn.

Adolygiad o berfformiad

Ystyrir bod perfformiad ariannol a sefyllfa ariannol y Gorfforaeth yn foddhaol. Ceir adolygiad o berfformiad a dangosyddion perfformiad allweddol yn Adroddiad y Pennaeth ar dudalennau 3-39.

**Datganiadau Ariannol** ***Parhad…***


Perfformiad Talu
Mae Deddf Talu Dyledion Masnachol yn hwyr (Llog) 1998, a ddaeth i rym ar 1 Tachwedd 1988, yn ei gwneud yn ofynnol i golegau, yn absenoldeb cytundeb i'r gwrthwyneb, wneud taliadau i gyflenwyr o fewn tri deg diwrnod o naill ai darparu nwyddau neu wasanaethau neu'r dyddiad y derbyniwyd yr anfoneb. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd credydwyr yn cynrychioli 7 diwrnod o bryniannau masnach. Ni chafodd y Coleg unrhyw daliadau llog mewn perthynas â thaliadau hwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

Y targed a osodwyd gan y Trysorlys ar gyfer talu cyflenwyr o fewn tri deg diwrnod yw 95%. Ar 31 Gorffennaf 2023 roedd gan y Coleg 7 diwrnod credydwyr.

| | |
|---|---|
| Balans credydwyr ar 31 Gorffennaf 2023 | **£212,496** |
| Symiau a anfonebwyd yn ystod y flwyddyn gan gyflenwyr | **£10,909,110** |
| Nifer y dyddiau yn y flwyddyn ariannol | **365 diwrnod** |
| Diwrnodau credydwyr masnach ar 31 Gorffennaf 2023 | **7 diwrnod** |

Datgelu gwybodaeth i archwilwyr
Mae'r aelodau a oedd yn dal swydd ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn yn cadarnhau, hyd y gwyddant, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Coleg yn ymwybodol ohoni a bod pob aelod wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi'u cymryd i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr y Coleg yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**Cymeradwywyd drwy orchymyn gan aelodau Bwrdd y Gorfforaeth ar 5 Rhagfyr 2023 a llofnodwyd ar ei ran gan:**



Iwan Thomas
Cadeirydd

# COLEG SIR BENFRO
# DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 GORFFENNAF 2023
# DATGANIAD LLYWODRAETH CORFFORAETHOL A RHEOLAETH FEWNOL

Darperir y datganiad canlynol er mwyn galluogi darllenwyr yr adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol y Coleg i gael gwell dealltwriaeth o'i lywodraethu a'i strwythur cyfreithiol. Mae'r datganiad hwn yn cwmpasu'r flwyddyn ariannol o 1 Awst 2022 i 31 Gorffennaf 2023 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol.

Mae'r Coleg yn ymdrechu i gynnal ei fusnes:

I. yn unol ag Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu Coleg Sir Benfro a'r Rheolau Sefydlog a'r Cylch Gorchwyl
II. yn unol â'r saith egwyddor a nodwyd gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth)
III. yn unol â'r Cod Llywodraethu ar gyfer Addysg Bellach a gyhoeddwyd gan ColegauCymru ym mis Ionawr 2016 ("y Cod")
IV. gan roi sylw dyledus i God Llywodraethu Corfforaethol y DU 2018 i'r graddau y mae'n berthnasol i'r sector addysg bellach

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i arddangos arfer gorau ym mhob agwedd ar lywodraethu corfforaethol ac yn arbennig mae'r Coleg wedi mabwysiadu a chydymffurfio â'r Cod. Nid ydym wedi mabwysiadu Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU ac felly nid ydym yn ei gymhwyso. Fodd bynnag, rydym wedi adrodd ar ein trefniadau Llywodraethu Corfforaethol drwy dynnu ar yr arferion gorau sydd ar gael, gan gynnwys yr agweddau hynny ar God Llywodraethu Corfforaethol y DU yr ydym yn eu hystyried yn berthnasol i'r sector addysg bellach ac arfer gorau.

Ym marn Aelodau'r Bwrdd, mae'r Coleg yn cydymffurfio â holl ddarpariaethau'r Cod, ac mae wedi cydymffurfio drwy gydol y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2023. Mae Bwrdd y Gorfforaeth yn cydnabod, fel corff yr ymddiriedwyd iddo arian cyhoeddus a phreifat, bod ganddo ddyletswydd arbennig i gadw at y safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol bob amser. Wrth gyflawni ei gyfrifoldebau, mae'n rhoi ystyriaeth lawn i'r Cod Llywodraethu ar gyfer Addysg Bellach a gyhoeddwyd gan ColegauCymru ym mis Ionawr 2016, a fabwysiadwyd ganddo'n ffurfiol ar 23 Chwefror 2016.

Mae'r Coleg yn elusen eithriedig o fewn ystyr Rhan 3 o Ddeddf Elusennau 2011. Mae Aelodau'r Bwrdd, sydd hefyd yn Ymddiriedolwyr at ddibenion Deddf Elusennau 2011, yn cadarnhau eu bod wedi rhoi sylw dyledus i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar budd y cyhoedd a bod y datganiadau gofynnol yn ymddangos mewn man arall yn y datganiadau ariannol hyn.

**<u>Bwrdd y Gorfforaeth</u>**

Nodir cyfansoddiad Bwrdd y Gorfforaeth ar dudalennau 54 a 55. Cyfrifoldeb Bwrdd y Gorfforaeth yw llunio barn annibynnol ar faterion strategaeth, perfformiad, adnoddau a safonau ymddygiad.

Rhoddir gwybodaeth reolaidd ac amserol i Fwrdd y Gorfforaeth am berfformiad ariannol cyffredinol y Coleg ynghyd â gwybodaeth arall fel perfformiad yn erbyn targedau ariannu, gwariant cyfalaf arfaethedig, materion ansawdd a materion yn ymwneud â phersonél fel iechyd a diogelwch a materion amgylcheddol. Mae Bwrdd y Gorfforaeth fel arfer yn cyfarfod chwe gwaith y flwyddyn.

**Bwrdd y Gorfforaeth *Parhad…***

Mae Bwrdd y Gorfforaeth yn cynnal ei fusnes drwy nifer o bwyllgorau. Mae gan bob pwyllgor gylch gorchwyl, sydd wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd y Gorfforaeth. Y pwyllgorau hyn yw Archwilio, Chwilio a Thâl, Ansawdd a Safonau a Chanolfan Lefel-A.

Er mwyn hyrwyddo eu dyletswyddau, mae holl Aelodau’r Bwrdd yn gallu cael cyngor proffesiynol annibynnol, ar draul y Coleg, a chael mynediad at Glerc Bwrdd y Gorfforaeth, sy’n gyfrifol i’r Bwrdd am sicrhau cydymffurfiaeth â’r holl weithdrefnau a rheoliadau cymwys. Mae penodi, gwerthuso a diswyddo’r Clerc yn faterion i Fwrdd y Gorfforaeth yn ei gyfanrwydd.

Darperir agendâu, papurau ac adroddiadau ffurfiol i aelodau'r Bwrdd mewn modd amserol, cyn cyfarfodydd y Bwrdd. Darperir briffiau ar sail ad-hoc.

Mae gan Fwrdd y Gorfforaeth elfen anweithredol gref ac annibynnol ac nid oes unrhyw unigolyn na grŵp yn dominyddu ei broses o wneud penderfyniadau. Mae Bwrdd y Gorfforaeth o’r farn bod pob un o’i aelodau anweithredol yn annibynnol ar reolaeth ac yn rhydd rhag unrhyw fusnes neu berthynas arall, a allai ymyrryd yn sylweddol ag arfer eu barn annibynnol.

Mae rhaniad clir o ran cyfrifoldeb gan fod rolau'r Cadeirydd a'r Pennaeth ar wahân. Mae Bwrdd y Gorfforaeth wedi mabwysiadu strwythur llywodraethu sy’n cynnwys y “Corff Aelodaeth” er mwyn datblygu perthnasoedd ymhellach â busnesau, ysgolion, sefydliadau gwirfoddol a’r cyhoedd ehangach ac annog mwy o gyfranogiad cymunedol ac integreiddio â’r Coleg. Gelwir y Corff hwn yn Fforwm Ymgynghorol Coleg Sir Benfro.

**Adroddiad ar weithgareddau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn i ddatblygu Llywodraethwyr a Chlerc Bwrdd y Gorfforaeth**

Derbyniodd Aelodau Bwrdd sydd newydd eu penodi hyfforddiant sefydlu a'u cyfeirio at ddogfennau allweddol, e.e. yr Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu, y Rheolau Sefydlog, Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Ariannol a'r Cod Llywodraethu Da. Yn ogystal, mae aelodau newydd o'r Pwyllgor Archwilio yn cael Rhaglen Sefydlu Ariannol.

Mae rhaglen hyfforddi ar waith ar gyfer Aelodau Bwrdd y Gorfforaeth sy'n cynnwys hyfforddiant gorfodol a dewisol. Yn ystod 2022/23, diweddarodd Aelodau’r Bwrdd eu hyfforddiant Diogelu a ‘Prevent’. Cafodd Bwrdd y Gorfforaeth hefyd sesiynau briffio ar faterion cydraddoldeb gan gynnwys meysydd yr oedd y Coleg yn canolbwyntio arnynt. Gwahoddir Aelodau'r Bwrdd i ddigwyddiadau'r Coleg, fel Graddio, nosweithiau gwobrwyo, Diwrnodau Aspire a chynadleddau.

Mae gan y Coleg Gynllun Llywodraethwyr Cyswllt ar waith. Mae'r rolau hyn yn helpu i ddatblygu effeithiolrwydd Bwrdd y Gorfforaeth ac wrth godi safonau'r Coleg. Mae’r cynllun yn cynorthwyo Aelodau’r Bwrdd i ddatblygu eu dealltwriaeth o wahanol feysydd y Coleg ac mae’r Coleg yn elwa o’u harbenigedd, eu sgiliau a’u gwybodaeth mewn rôl ymgynghorol a chefnogi.

Cwblhaodd y Swyddog Llywodraethu yr holl sesiynau hyfforddi staff gorfodol. Yn ogystal, ymgymerodd y Swyddog Llywodraethu â hyfforddiant ar gynnal ymchwiliadau a mynychodd Weminar ar Ddiwylliant a Chwythu'r Chwiban mewn sefydliadau, gyda rhai sesiynau dilynol wedi'u trefnu ar gyfer FY24. Mae'r Swyddog Llywodraethu yn parhau i fynychu cyfarfodydd y Rhwydwaith Llywodraethu AB.

COLEG SIR BENFRO
DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 GORFFENNAF 2023
DATGANIAD LLYWODRAETH CORFFORAETHOL A RHEOLAETH FEWNOL

**Adroddiad yn nodi a yw'r coleg wedi cynnal/comisiynu adolygiad mewnol neu allanol o Lywodraethu**

Mae Bwrdd y Gorfforaeth yn adolygu ac yn cymeradwyo ei Reolau Sefydlog a'i Gylch Gorchwyl yn flynyddol. Mae holl bwyllgorau'r Bwrdd yn cynhyrchu adroddiadau blynyddol ac mae'r Swyddog Llywodraethu hefyd yn cwblhau Adroddiad Blynyddol fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Cadeirydd yn cynnal adolygiad hunanasesu o Fwrdd y Gorfforaeth ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Ar gyfer FY23, gwahoddwyd holl Aelodau'r Bwrdd i fynegi eu barn a darparu adborth ar nifer o feysydd allweddol. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar arolwg cychwynnol a ddilynwyd gan sgyrsiau un-i-un yn ôl y gofyn. Ystyrir canlyniadau ac argymhellion yr adolygiad gan Fwrdd y Gorfforaeth a datblygir cynllun gweithredu. Mae cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu yn cael ei ystyried gan y Bwrdd ddwywaith y flwyddyn.

Mae archwilwyr mewnol y Coleg yn adolygu elfennau o Lywodraethu fel rhan o'r Cynllun Dadansoddi Anghenion Archwilio Blynyddol. Mae meysydd adolygu yn cynnwys Rheoli Perfformiad, Cynllunio Strategol ac Effeithiolrwydd y Bwrdd ar raglen dreigl.

Ni chomisiynwyd adolygiad allanol o Lywodraethu yn ystod FY23.

**Penodiadau i Fwrdd y Gorfforaeth**

Mae unrhyw benodiadau newydd i Fwrdd y Gorfforaeth yn fater i'w ystyried gan Fwrdd y Gorfforaeth yn ei gyfanrwydd. Mae gan Fwrdd y Gorfforaeth Bwyllgor Chwilio a Thaliadau sy'n cynnwys hyd at bum aelod sy'n gyfrifol am ddewis ac enwebu unrhyw aelod newydd i'w ystyried gan Fwrdd y Gorfforaeth. Mae Bwrdd y Gorfforaeth yn gyfrifol am sicrhau bod hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu yn ôl yr angen.

Penodir aelodau Bwrdd y Gorfforaeth am dymor swydd nad yw'n hirach na phedair blynedd ac maent yn gymwys i'w hailbenodi am ail dymor.

**Pwyllgor Chwilio a Thaliadau**

Unodd Bwrdd y Gorfforaeth ddyletswyddau'r Pwyllgor Chwilio a'r Pwyllgor Tâl i ffurfio un pwyllgor. Mae gan y Pwyllgor hyd at bum aelod. Yn ogystal â'r dyletswyddau a amlinellir uchod, mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn cynnwys gwneud argymhellion i'r Bwrdd ar dâl a buddion Deiliaid Swyddi Uwch gan gynnwys y Pennaeth a Chlerc Bwrdd y Gorfforaeth.

Mae manylion y taliadau am y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2023 wedi'u hamlinellu yn nodyn 7 i'r datganiadau ariannol.

**Pwyllgor Archwilio**

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys o leiaf dri aelod (ac eithrio'r Pennaeth a'r Cadeirydd). Mae'r Pwyllgor yn gweithredu yn unol â'r cylch gorchwyl ysgrifenedig a gymeradwywyd gan Fwrdd y Gorfforaeth.

**Pwyllgor Archwilio *Parhad…***

Mae’r Pwyllgor Archwilio yn cyfarfod bob tymor ac yn darparu fforwm ar gyfer adrodd gan archwilwyr mewnol ac allanol y Coleg, sydd â mynediad i’r Pwyllgor ar gyfer trafodaeth annibynnol, heb bresenoldeb rheolwyr y Coleg. Mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau gan Lywodraeth Cymru fel y maent yn effeithio ar fusnes y Coleg.

Mae archwilwyr mewnol y Coleg yn monitro’r systemau rheolaeth fewnol, rheolaethau rheoli risg a phrosesau llywodraethu yn unol â chynllun mewnbwn y cytunwyd arno ac yn adrodd ar eu canfyddiadau i’r rheolwyr a’r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r rheolwyr yn gyfrifol am weithredu argymhellion archwilio y cytunwyd arnynt ac mae archwilwyr mewnol yn cynnal adolygiadau dilynol cyfnodol i sicrhau bod argymhellion o'r fath wedi'u gweithredu.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynghori Bwrdd y Gorfforaeth ar benodi archwilwyr datganiadau ariannol mewnol ac ariannol a'u tâl am waith archwilio a gwaith nad yw'n waith archwilio.

**Pwyllgor Ansawdd a Safonau**

Sefydlodd y Bwrdd Bwyllgor Ansawdd a Safonau i benderfynu a chynghori ar faterion o'r fath yn ymwneud â gwella ansawdd perfformiad. Cylch gwaith y Pwyllgor yw dadansoddi perfformiad presennol y Coleg, gan gynnwys y wybodaeth am berfformiad ar gyfer addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith ac addysg uwch.

Cyfansoddiad y Pwyllgor yw: y Cadeirydd (llywodraethwr a enwebir gan y Bwrdd), y Pennaeth, Pennaeth Cynorthwyol Astudiaethau Galwedigaethol, dau Lywodraethwr Annibynnol, dau Fyfyriwr Lywodraethwyr, dau Lywodraethwr Staff a chynrychiolydd cyfetholedig o addysg uwch ynghyd â’r Gyfadran Penaethiaid a Gwella Ansawdd a Rheolwr Datblygu Sefydliadol.

Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn cynnwys Llais y Dysgwr a monitro canmoliaeth a chwynion.

**Pwyllgor y Ganolfan Lefel A**

Sefydlodd y Bwrdd Bwyllgor Canolfan Lefel-A yn dilyn cynyddu'r ddarpariaeth Lefel A i'r Campws6. Cylch gorchwyl y Pwyllgor yw goruchwylio gweithrediad y Ganolfan Lefel-A.

Cyfansoddiad y Pwyllgor yw: tri chynrychiolydd o'r Coleg, Aelod o Fwrdd y Gorfforaeth, y Pennaeth a Phennaeth Lefel-A (CAM). Hyd at 10 aelod wedi'u henwebu gan Gyngor Sir Penfro, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Addysg, hyd at ddau aelod o'r Cyngor, tri Phennaeth a thri llywodraethwr o ysgolion heb chweched dosbarth y mae eu dysgwyr yn trosglwyddo i'r Coleg.

Mae'r Pwyllgor yn rhoi cyngor a chyfeiriad strategol i Dîm Rheoli'r Gyfadran ALC ac yn goruchwylio gweithrediadau'r Ganolfan Lefel-A.

# DATGANIAD LLYWODRAETH CORFFORAETHOL A RHEOLAETH FEWNOL

## Rheolaeth Fewnol

### Cwmpas Cyfrifoldeb

Bwrdd y Gorfforaeth sy’n gyfrifol yn y pen draw am system rheolaeth fewnol y Coleg ac am adolygu ei heffeithiolrwydd. Fodd bynnag, mae system o'r fath wedi'i chynllunio i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethiant i gyflawni amcanion busnes a gall ddarparu sicrwydd rhesymol yn unig ac nid sicrwydd llwyr yn erbyn camddatganiad neu golled berthnasol.

Mae Bwrdd y Gorfforaeth wedi dirprwyo’r cyfrifoldeb o ddydd i ddydd i’r Pennaeth, fel Swyddog Cyfrifyddu, am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy’n cefnogi cyflawniad polisïau, nodau ac amcanion y Coleg, tra’n diogelu’r cronfeydd cyhoeddus a’r asedau y maent yn bersonol gyfrifol, yn unol â’r cyfrifoldebau a neilltuwyd iddynt yn y Memorandwm Ariannol rhwng y Coleg a Llywodraeth Cymru. Maent hefyd yn gyfrifol am adrodd i Fwrdd y Gorfforaeth am unrhyw wendidau neu doriadau perthnasol mewn rheolaeth fewnol.

### Pwrpas y System Rheolaeth Fewnol

Cynlluniwyd y system rheolaeth fewnol i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethiant i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol ac nid absoliwt o effeithiolrwydd y gall ei roi. Mae’r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a luniwyd i nodi a blaenoriaethu’r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Coleg, i werthuso’r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny’n cael eu gwireddu a’u heffaith pe baent yn cael eu gwireddu, a’u rheoli yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae’r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith yn y Coleg ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2023 a hyd at ddyddiad cymeradwyo’r adroddiad blynyddol a’r datganiadau ariannol.

### Y gallu i drin risg

Mae Bwrdd y Gorfforaeth wedi adolygu’r risgiau allweddol y mae’r Coleg yn agored iddynt ynghyd â’r rheolaethau gweithredu, ariannol a chydymffurfio a roddwyd ar waith i liniaru’r risgiau hynny. Mae Bwrdd y Gorfforaeth o’r farn bod proses barhaus ffurfiol ar waith ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol y Coleg sydd wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2023 a hyd at ddyddiad cymeradwyo’r adroddiad blynyddol a’r datganiadau ariannol. Mae Bwrdd y Gorfforaeth yn adolygu'r broses hon yn rheolaidd.

### Y Fframwaith Risg a Rheoli

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar fframwaith o wybodaeth reoli reolaidd, gweithdrefnau gweinyddol gan gynnwys gwahanu dyletswyddau a system o ddirprwyo ac atebolrwydd. Yn benodol, mae'n cynnwys:

- Systemau cyllidebu cynhwysfawr gyda chyllideb flynyddol, sy’n cael ei hadolygu a’i chytuno gan Fwrdd y Gorfforaeth
- Adolygiadau rheolaidd gan Fwrdd y Gorfforaeth o adroddiadau ariannol cyfnodol a blynyddol, sy’n nodi’r perfformiad ariannol yn erbyn rhagolygon
- Gosod targedau i fesur perfformiad ariannol a pherfformiad arall
- Canllawiau rheoli buddsoddiadau cyfalaf wedi’u diffinio’n glir
- Mabwysiadu disgyblaethau rheoli prosiect ffurfiol, lle bo’n briodol

Fframwaith Risg a Rheoli *Parhad…*

Mae gan y Coleg wasanaeth archwilio mewnol, sy'n gweithredu yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Caiff gwaith y gwasanaeth archwilio mewnol ei lywio gan ddadansoddiad o'r risgiau y mae'r Coleg yn agored iddynt ac mae cynlluniau archwilio mewnol blynyddol yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn. Mae Bwrdd y Gorfforaeth, ar argymhelliad y Pwyllgor Archwilio, yn cymeradwyo'r dadansoddiad o risgiau a'r cynlluniau archwilio mewnol.

O leiaf unwaith y flwyddyn, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi adroddiad i Fwrdd y Gorfforaeth ar weithgarwch archwilio mewnol yn y Coleg. Mae'r adroddiad yn cynnwys barn annibynnol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheoli risg, rheolaethau a phrosesau llywodraethu'r Coleg.

Adolygiad Effeithiolrwydd
Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gan y Pennaeth gyfrifoldeb am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Caiff yr adolygiad effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol ei lywio gan:

- Gwaith yr Archwilwyr Mewnol
- Gwaith yr uwch reolwyr yn y Coleg sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol
- Y sylwadau a waned gan archwilwyr datganiadau ariannol y Coleg ac archwilwyr Llywodraeth Cymru neu lythyrau rheoli ac adroddiadau eraill

Mae'r Pennaeth wedi cael gwybod am oblygiadau canlyniad adolygiad effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y Pwyllgor Archwilio, sy'n goruchwylio gwaith yr Archwiliwr Mewnol ac mae cynllun i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau gwelliant parhaus i'r system yn ei le.

Mae'r uwch dîm rheoli yn derbyn adroddiadau sy'n nodi dangosyddion perfformiad a risg allweddol ac yn ystyried materion rheoli posibl a ddygwyd i sylw'r aelodau drwy fecanweithiau rhybudd cynnar, sydd wedi'u gwreiddio yn yr adrannau ac wedi'u hatgyfnerthu gan hyfforddiant ymwybyddiaeth risg. Mae'r uwch dîm rheoli a'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn cael adroddiadau rheolaidd gan yr archwilwyr mewnol, sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer gwella. Mae rôl y Pwyllgor Archwilio yn y maes hwn wedi'i gyfyngu i adolygiad lefel uchel o'r trefniadau ar gyfer rheolaeth fewnol. Mae agenda Bwrdd y Gorfforaeth yn cynnwys eitem reolaidd ar gyfer ystyried risg a rheolaeth ac mae'n derbyn adroddiadau ar hynny gan yr uwch dîm rheoli a'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r pwyslais ar gael y graddau perthnasol o sicrwydd ac nid adrodd drwy eithriad yn unig.

Yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2023, cynhaliodd Bwrdd y Gorfforaeth yr asesiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2023 drwy ystyried dogfennaeth gan yr uwch dîm rheoli, yr archwiliad mewnol a chan ystyried digwyddiadau ers 31 Gorffennaf 2023.

Yn seiliedig ar gyngor y Pwyllgor Archwilio a'r Swyddog Cyfrifyddu, mae Bwrdd y Gorfforaeth o'r farn bod gan y Coleg fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, ac wedi cyflawni ei gyfrifoldeb statudol am "ddefnydd effeithiol ac effeithlon adnoddau, diddyledrwydd y sefydliad a'r corff a diogelu eu hasedau".

# DATGANIAD LLYWODRAETH CORFFORAETHOL A RHEOLAETH FEWNOL

Busnes Byw

Ar ôl gwneud ymholiadau priodol, mae Bwrdd y Gorfforaeth o'r farn bod gan y Coleg adnoddau digonol i barhau mewn bodolaeth weithredol hyd y gellir rhagweld. Am y rheswm hwn, mae'n parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Deddf Llwgrwobrwyo 2010

Daeth Deddf Llwgrwobrwyo 2010 i rym ar 1 Gorffennaf 2011 ac mae'n berthnasol i unrhyw sefydliad sydd wedi'i gorffori yn y DU ni waeth ble mae'n cynnal ei fusnes. Mae'r Coleg yn dod o dan y Ddeddf wrth iddo ymwneud â gweithgareddau masnachol.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dwy drosedd gyffredinol:

- Llwgrwobrwyo Gweithredol – cynnig neu roi llwgrwobr
- Llwgrwobrwyo Goddefol – gofyn am neu dderbyn llwgrwobr

Mae hyfforddiant wedi'i ddarparu i staff sydd wedi'u nodi fel y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf. Rhaid i unrhyw aelod o staff sy'n amau llwgrwobrwyo roi gwybod i'r Cyfarwyddwr Adnoddau ar unwaith.



Dyddiad: 05/12/2023
Iwan Thomas
Cadeirydd



Dyddiad: 05/12/2023
Dr Barry Walters
Pennaeth

COLEG SIR BENFRO
DATGANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 GORFFENNAF 2023
AELODAU O'R BWRDD CORFFORAETHOL

| Enw | Dyddiad Penodi / Ail-Benodi | Cyfnod Swydd | Pwyllgorau | Presenoldeb | | | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Y Bwrdd | Pwyllgorau Eraill | Archwilio | |
| Iwan Thomas (Cadeirydd Bwrdd y Gorfforaeth) | Awst 2023 (Ail dymor) | 4 bl | Chwilio a Thaliadau | 7/7 | 5/5 | Amherthnasol | Penodwyd yn Gadeirydd 1 Awst 21 |
| John Gammon | Tachwedd 2019 (Tymor cyntaf) | 4 bl | Canolfan Lefel A | 3/7 | 2/3 | Amherthnasol | Diwedd Tymor Rhag 23, Adolygu Hydref 23 |
| Andy Jones | Mai 2021 (Ail dymor) | 4 bl | Archwiliad | 5/7 | Amherthnasol | 5/5 | Tymor Gorffen - Tachwedd 23 |
| Graham Morgan | Mai 2021 (Ail dymor) | 4 bl | | 4/7 | Amherthnasol | Amherthnasol | Diwedd Tymor Mai 25, Adolygu Ebrill 25 |
| Andrew Phillips | Rhagfyr 2021 (Ail dymor) | 4 bl | | 6/7 | Amherthnasol | Amherthnasol | Diwedd Tymor Rhagfyr 25, Adolygu Hydref 25 |
| Dylan Harries | Ionawr 2020 (Tymor cyntaf) | 4 bl | Archwiliad (Cadeirydd) Chwilio a Thaliadau | 7/7 | 5/5 | 5/5 | Diwedd Tymor Ionawr 24, Adolygu Rhag 23 |
| Marc Blockwell | Ionawr 2020 (Tymor cyntaf) | 4 bl | Archwiliad | 5/7 | Amherthnasol | 5/5 | Diwedd Tymor Ionawr 24, Adolygu Rhag 23 |
| Louise Wilkinson | Mai 2021 (Tymor cyntaf) | 4 bl | Ansawdd a Safonau | 4/7 | 1/1 | Amherthnasol | Diwedd Tymor Mai 25, Adolygu Ebrill 25 (Caniatad i Absenoldeb tan Mawrth 22) |
| Lisa Gostling | Hydref 2021 (Tymor cyntaf) | 4 bl | Ansawdd a Safonau, Chwilio a Thaliadau | 4/7 | 1/3 | Amherthnasol | Diwedd Tymor Awst 25, Adolygu Gorff 25 |
| Sarah Rowland-Jones | Rhagfyr 2021 (Tymor cyntaf) | 4 bl | | 4/7 | Amherthnasol | Amherthnasol | Diwedd Tymor Rhagfyr 25, Adolygu Medi 25 |
| Edna Davies | Gorffennaf 2022 (Tymor cyntaf) | 4 bl | | 4/7 | Amherthnasol | Amherthnasol | Diwedd Tymor Gorffennaf 26, Adolygu Mai 26 |
| Helen Murray | Mawrth 2023 (Tymor cyntaf) | 4 bl | | 3/3 | Amherthnasol | Amherthnasol | Diwedd Tymor Ionawr 27, Adolygu Rhagfyr 26 |
| **Llywodraethwyr Awdurdod Lleol** | | | | | | | |
| Steven Richards-Downes | Ionawr 2020 (Tymor cyntaf) | 4 bl | Canolfan Lefel A | 5/7 | 2/3 | Amherthnasol | Diwedd Tymor Ionawr 24, Adolygu Rhagfyr 23 |
| Jonathan Haswell | Hydref 2018 (Ail dymor) | 4 bl | Archwilliad | 0/1 | Amherthnasol | 0/1 | Diwedd tymor Hydref 22 |
| Guy Woodham | Hydref 2022 | 4 bl | Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau | 4/7 | 3/4 | Amherthnasol | Diwedd tymor Hydref 26, Adolygu Gorff 26 |
| **Llywodraethwyr Staff** | | | | | | | |
| Will Bateman | Gorffennaf 2022 (Tymor cyntaf) | 4 bl | Ansawdd a Safonau | 6/6 | 2/3 | Amherthnasol | Diwedd Tymor Gorff 26, Adolygu Mai 26 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Charlie Royal | Medi 2020 (Ail dymor) | 4 bl | Ansawdd a Safonau (Cadeirydd dros dro o Mai 2022) | 6/6 | 1/3 | Amherthnasol | Diwedd Tymor Medi 24, Adolygu Gorff 24 |
| Dr Barry Walters/ Dave Evans (Pennaeth Dros Dro am gyfnod) | Gorffennaf 2018 | | Chwilio a Thaliadau<br>Ansawdd a Safonau<br>Canolfan Lefel-A | 7/7 | 10/11 | Amherthnasol | Pennaeth |
| **Llywodraethwyr Myfyrwyr 2022/23** | | | | | | | |
| Samuel Lowe | Awst 2022 | 1 bl | Ansawdd a Safonau | 2/5 | 1/3 | Amherthnasol | LlM i gael ei ethol yn y flwyddyn academaidd newydd |
| Jake Aldred | Awst 2022 | 1 bl | Ansawdd a Safonau | 0/2 | 0/1 | Amherthnasol | LlM I gael ei ethol yn y flwyddyn academaidd newydd |

Mae Aelodau Bwrdd Corfforaethol y Coleg yn gyfrifol am weinyddu a rheoli materion y Coleg, gan gynnwys sicrhau system effeithiol o reolaeth fewnol ac mae'n ofynnol iddynt gyflwyno datganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

O fewn telerau ac amodau'r Memorandwm Ariannol y cytunwyd arno rhwng LlC a'r Gorfforaeth, mae'n ofynnol i'r Gorfforaeth, drwy ei Phrif Swyddog Cyfrifyddu, baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Coleg, y gwarged/diffyg a llif arian ar gyfer y flwyddyn honno.

**Datganiad o Gyfrifoldebau Aelodau Bwrdd y Gorfforaeth**

O fewn telerau ac amodau’r Memorandwm Ariannol rhwng LlC a Bwrdd Corfforaeth y Coleg, mae’n ofynnol i’r Gorfforaeth, trwy ei Swyddog Cyfrifyddu, baratoi datganiadau ariannol ac adolygiad gweithredol ac ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â’r Datganiad Arfer a Argymhellir (SORP) – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch, y Cyfarwyddyd Cyfrifon ar gyfer Colegau Addysg Bellach yng Nghymru ac Egwyddorion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU, ac sy’n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa’r Coleg a’i warged/ diffyg incwm dros wariant am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi’r datganiadau ariannol mae’n ofynnol i Fwrdd y Gorfforaeth wneud y canlynol:


- Dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol a doeth
- Datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelir ac a eglurwyd yn y datganiadau ariannol
- Asesu a yw’r Coleg yn fusnes byw, gan nodi’r rhagdybiaethau ategol allweddol, yr amodau neu’r camau gweithredu lliniarol, fel y bo’n briodol (sy’n gorfod bod yn gyson â datgeliadau eraill yn y datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwilydd)
- Paratoi datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Coleg yn parhau i weithredu

Mae’r Gorfforaeth yn fodlon bod ganddi adnoddau digonol i barhau i weithredu hyd y gellir rhagweld. Am y rheswm hwn, parheir i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi datganiadau ariannol. Mae’n ofynnol hefyd i Fwrdd y Gorfforaeth baratoi Adroddiad Aelodau yn unol â’r SORP AB ac AU, yn disgrifio’r hyn y mae’n ceisio’i wneud a sut y mae’n mynd ati, gan gynnwys gwybodaeth am statws cyfreithiol a gweinyddol y Coleg.

Mae’r Corff Corfforaeth yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy’n datgelu, gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y Coleg ac sy’n ei alluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â deddfwriaeth berthnasol gan gynnwys y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Deddf Elusennau 2011, a safonau cyfrifyddu perthnasol. Mae'n gyfrifol am gymryd camau sy'n rhesymol agored iddo i ddiogelu ei asedau ac i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall. Hefyd ar gyfer cynnal a chadw ei wefan; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn.

Mae’r cyfrifoldeb yn cynnwys sicrhau bod gwariant ac incwm yn cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan LlC a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â’r awdurdodau sy’n eu llywodraethu a sicrhau bod arian gan Lywodraeth Cymru, ac unrhyw gronfeydd cyhoeddus eraill, yn cael eu defnyddio yn unol â’r Memorandwm Ariannol ac unrhyw amodau eraill y gellir eu rhagnodi o bryd i'w gilydd. Yn ogystal, mae Aelodau’r Corff Llywodraethol yn gyfrifol am sicrhau rheolaeth ddarbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a gwariant y Coleg fel nad yw’r buddion a ddylai ddeillio o ddefnyddio arian cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yn cael eu rhoi yn y fantol.

Cymeradwywyd drwy orchymyn gan aelodau Bwrdd y Gorfforaeth ar 5 Rhagfyr 2023 a llofnodwyd ar ei ran gan:



Iwan Thomas
Cadeirydd

# Adroddiad ar archwiliad y datganiadau ariannol

## Barn

Yn ein barn ni mae datganiadau ariannol Coleg Sir Benfro (y “datganiadau ariannol”):

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa’r Coleg ar 31 Gorffennaf 2023, ac o incwm a gwariant a llif arian y Coleg am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi’u paratoi’n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu’r Deyrnas Unedig, sy’n cynnwys FRS 102 “Y Safon Adrodd Ariannol sy’n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon”, a chyfraith berthnasol);
- wedi’u paratoi’n briodol yn unol â gofynion y Datganiad Arferion Cymeradwy – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch; a
- wedi’u paratoi’n briodol yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Llywodraeth Cymru.

Rydym wedi archwilio’r datganiadau ariannol, sydd wedi’u cynnwys yn Natganiadau Ariannol Coleg Sir Benfro (yr “Adroddiad Blynyddol”), sy’n ffurfio’r Fantolen ar 31 Gorffennaf 2023; y Datganiad Incwm Cynhwysfawr, y Datganiad Newidiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn a’r Datganiad Llif Arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a’r nodiadau i’r datganiadau ariannol, sy’n cynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

## Sail i’r farn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (“ISAs (UK)”) a chyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan ISAs (DU) ymhellach yng nghyfrifoldebau’r Archwilwyr am archwilio’r adran datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer ein barn.

### *Annibyniaeth*

Fe wnaethom barhau’n annibynnol o’r Coleg yn unol â’r gofynion moesegol sy’n berthnasol i’n harchwiliad o’r datganiadau ariannol yn y DU, sy’n cynnwys Safon Foesegol yr FRC, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol a’r gofynion hyn.

## Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi’i gyflawni, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu’r Coleg i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o’r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi’r datganiadau ariannol.

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod y Gorfforaeth yn defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Fodd bynnag, oherwydd na ellir rhagweld yr holl ddigwyddiadau neu amodau yn y dyfodol, nid yw’r casgliad hwn yn warant o allu’r Coleg i barhau fel busnes gweithredol.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Gorfforaeth mewn perthynas â busnes gweithredol yn Adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Adrodd ar wybodaeth arall

Mae’r wybodaeth arall yn cynnwys yr holl wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ac eithrio’r datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilwyr arnynt. Mae'r Gorfforaeth yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac, yn unol â hynny, nid ydym yn mynegi barn archwilio nac unrhyw fath o sicrwydd ar hynny.

Mewn cysylltiad â’n harchwiliad o’r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw’r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â’r datganiadau ariannol neu’n gwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad, neu’n ymddangos fel arall yn berthnasol camddatgan. Os byddwn yn nodi anghysondeb sylweddol ymddangosiadol neu gamddatganiad perthmasol, mae’n ofynnol i ni gyflawni gweithdrefnau i ddod i’r casgliad a oes camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad perthnasol o’r wybodaeth arall. Os byddwn yn dod i’r casgliad, yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi’i wneud, bod camddatganiad sylweddol o’r wybodaeth arall hon, mae’n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno. Ni does gennym unrhyw beth i’w adrodd yn seiliedig ar y cyfrifoldebau hyn.

ADRODDIAD ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I GORFFORAETH COLEG SIR BENFRO (Y "COLEG")

## Cyfrifoldebau am y datganiadau ariannol a'r archwiliad

### *Cyfrifoldebau'r Gorfforaeth am y datganiadau ariannol*

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad Cyfrifoldebau Aelodau Bwrdd y Gorfforaeth, mae'r Gorfforaeth yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Mae'r Gorfforaeth hefyd yn gyfrifol am unrhyw reolaeth fewnol y mae'n penderfynu ei bod yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Gorfforaeth yn gyfrifol am asesu gallu'r Coleg i barhau fel busnes byw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Gorfforaeth naill ai'n bwriadu diddymu'r Coleg neu i roi'r gorau i weithrediadau, neu nad oes ganddo ddewis arall realistig ond gwneud hynny.

### *Cyfrifoldebau archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol*

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfriethiau o rheoliadau. Rydym yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r Coleg/diwydiant, fe wnaethom nodi mai'r prif risgiau o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch a chyfraith cyflogaeth ynghyd â'r Memorandwm Ariannol rhwng y Coleg a Llywodraeth Cymru, a gwnaethom ystyried y graddau y gallai diffyg cydymffurfio gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol. Gwnaethom hefyd ystyried y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol fel y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Gwerthuswyd cymhellion a chyfleoedd y rheolwyr i drin y datganiadau ariannol yn dwyllodrus (gan gynnwys y risg o ddiystyru rheolaethau), a phenderfynwyd bod y prif risgiau'n ymwneud â phostio cofnodion cyfrifyddu amhriodol a gynlluniwyd i orddatgan perfformiad ariannol a/neu sefyllfa'r Coleg. Roedd y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd yn cynnwys:

- Ymchwilio i reolwyr ynghylch achosion hysbys neu a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a thwyll;
- Adolygu cofnodion cyfarfodydd gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- Herio rhagdybiaethau a waned gan reolwyr yn yr amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol, yn enwedig y tybiaethau mewn perhynas â chynllun pensiwn llywodraeth leol;
- Nodi a phrofi dilysrwydd cofnodion dyddlyfr, yn enwedig y rhai yr ystyrir bod ganddynt gyfuniadau anarferol o gyfrifon.

Mae cyfyngiadau cynhenid yn y gweithdrefnau archwilio a ddisgrifir uchod. Rydym yn llai tebygol o ddod yn ymwybodol o achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau nad ydynt yn gysylltiedig yn agos â digwyddiadau a thrafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol. Hefyd, mar'r risg o beidio â chanfod camddatganiad perthnasol oherwydd twyll yn uwch na'r risg o beidio â chanfod un sy'n deillio o gamgymeriad, gan y gallai twyll gynnwys celu bwriadol trwy, er engrhraifft, ffugio neu gamliwio bwriadol, neu drwy gydgynllwynio.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad ein harchwilwyr.

### *Defnyddio'r adroddiad hwn*

Paratowyd yr adroddiad hwn, gan gynnwys y safbwyntiau, ar gyfer ac ar gyfer Corfforaeth y Coleg fel corff yn unig yn unol ag Erthygl 18 o Erthyglau Llywodraethu'r Coleg ac nid at unrhyw ddiben arall. Nid ydym, wrth roi'r farn hon, yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw ddiben arall nac i unrhyw berson arall y dangosir yr adroddiad hwn iddo neu y daw i'w ddwylo ac eithrio lle y cytunwyd yn benodol drwy ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw.

## Adrodd Gofynnol Arall

### Barn ar faterion eraill a ragnodir yng Nghod Ymarfer Archwilio Addysg Bellach 2015 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru

Yn ein barn ni, ym mhob ffordd berthnasol:

- mae arian a wairwyd o grantiau Llywodraeth Cymru a chronfeydd eraill o ba bynnag ffynhonnell a weinyddir gan y Coleg at ddibenion penodol wedi'i gymhwyso'n briodol at y dibenion hynny ac, os yw'n briodol, wedi'i reoli yn unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol; a
- mae incwm wedi'i gymhwyso yn unol â'r memorandwm ariannol gyda Llywodraeth Cymru.



PricewaterhouseCoopers LLP
Cyfrifwyr Siartedig ac Archwilwyr Statudol
Caerdydd
7 Rhagfyr 2023

# DATGANIAD INCWM CYNHWYSFAWR
# AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 GORFFENNAF 2023

| | Nodyn | 2023 £'000 | 2022 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| Grantiau cyrff cyllido | 2 | 41,385 | 41,326 |
| Ffioedd dysgu a chontractau addysg | 3 | 1,176 | 1,170 |
| Incwm arall | 4 | 1,030 | 1,155 |
| Incwm buddsoddi | 5 | 227 | 27 |
| **Cyfanswm yr incwm** | | **43,818** | **43,678** |
| **Gwariant** | | | |
| Costau staff | 6 | 18,226 | 17,734 |
| Costau gweithredu eraill | 8 | 22,494 | 24,121 |
| Dibrisiant | 11 | 1,580 | 1,337 |
| Llog a chostau cyllid | 9 | 166 | 322 |
| **Cyfanswm gwariant** | | **42,466** | **43,514** |
| **EBITDA wedi'i addasu cyn costau untro ac eitemau nad ydynt yn arian parod** | | **2,343** | **2,739** |
| Llog Net Derbyniadwy/(Taladwy) | | 61 | (295) |
| Costau Ailstrwythuro Staff | 6 | (14) | (44) |
| *Eitemau nad ydynt yn Arian Parod:* | | | |
| Dibrisiant | 11 | (1,580) | (1,337) |
| Rhyddhau Grantiau Cyfalaf | 16 | 1,088 | 880 |
| Tâl Pensiwn ac Ymddeoliad Cynnar FRS 102 | | (546) | (1,779) |
| **Gwarged cyn colledion eraill** | | **1,352** | **164** |
| Colled wrth waredu asedau sefydlog | | (60) | (108) |
| **Gwarged am y flwyddyn a gadwyd o fewn y cronfeydd cyffredinol** | | **1,292** | **56** |
| Ennill Actiwaraidd | | 9,852 | 17,421 |
| **Cyfanswm yr Incwm Cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **11,144** | **17,477** |

Mae'r cyfrir incwm a gwariant yn ymwneud â gweithgareddau parhaus y Coleg.

COLEG SIR BENFRO
DATGANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 GORFFENNAF 2023
DATGANIAD NEWIDIADAU YN Y CRONFEYDD WRTH GEFN
AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 GORFFENNAF 2023

| | **Incwm a Gwariant £'000** | **Cronfa Cyfalaf £'000** | **Cyfanswm Cronfeydd Anghyfyngedig £'000** |
|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Awst 2021** | **(6,097)** | **5,198** | **(899)** |
| Gwarged o'r cyfrif incwm a gwariant | 56 | - | 56 |
| Incwm cynhwysfawr arall | 17,421 | - | 17,421 |
| Trosglwyddiadau rhwng ailbrisio ac incwm a gwariant cronfeydd wrth gefn | 101 | (101) | - |
| Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn | 17,578 | (101) | 17,477 |
| **Balans ar 31 Gorffennaf 2022** | **11,481** | **5,097** | **16,578** |
| Gwarged o'r cyfrif incwm a gwariant | 1,292 | - | 1,292 |
| Incwm cynhwysfawr arall | 9,852 | - | 9,852 |
| Trosglwyddiadau rhwng ailbrisio ac incwm a gwariant cronfeydd wrth gefn | 102 | (102) | - |
| Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn | 11,246 | (102) | 11,144 |
| **Balans ar 31 Gorffennaf 2023** | **22,727** | **4,995** | **27,722** |

COLEG SIR BENFRO
DATGANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 GORFFENNAF 2023
Y FANTOLEN
AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 GORFFENNAF 2023

| | Nodyn | 2023 £'000 | 2022 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Asedau sefydlog diriaethol | 11 | 38,156 | 34,885 |
| Ased pensiwn buddion diffiniedig | 18 | 3,644 | - |
| Cyfanswm asedau anghyfredol | | 41,800 | 34,885 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Stociau | | 92 | 71 |
| Dyledwyr | 12 | 5,013 | 2,091 |
| Buddsoddiadau | 13 | 3,000 | 3,000 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | | 5,240 | 6,828 |
| Cyfanswm asedau cyfredol | | 13,345 | 11,990 |
| **Credydwyr – symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | 14 | (7,697) | (7,268) |
| **Asedau cyfredol net** | | **5,648** | **4,722** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **47,448** | **39,607** |
| **Credydwyr – symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | 15 | (19,006) | (16,912) |
| **Llai: Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau** | | | |
| Rhwymedigaethau pensiwn buddion diffiniedig | 18 | - | (5,441) |
| Darpariaethau eraill | 17 | (720) | (676) |
| **Asedau net** | | **27,722** | **16,578** |
| **Cronfeydd anghyfynedig** | | | |
| Cyfrif incwm a gwariant | | 22,727 | 11,481 |
| Cronfa gyfalaf | | 4,995 | 5,097 |
| **Cyfanswm cronfeydd anghyfyngedig** | | **27,722** | **16,578** |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 60 i 88 gan Fwrdd y Gorfforaeth ar 5 Rhagfyr 2023 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

Iwan Thomas
Cadeirydd

Dr Barry Walters
Pennaeth

Caroline James
Cyfarwyddwr Adnoddau

COLEG SIR BENFRO
DATGANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 GORFFENNAF 2023
DATGANIAD LLIF ARIAN

| | 2023 £'000 | 2022 £'000 |
|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | |
| Gwarged am y flwyddyn | 1,292 | 56 |
| **Addasiadau ar gyfer eitemau nad ydynt yn arian parod** | | |
| Dibrisiant | 1,580 | 1,337 |
| Rhyddhau grantiau cyfalaf | (1,088) | (880) |
| Cynnydd mewn stoc | (21) | (26) |
| (Cynnydd) / Gostyngiad mewn dyledwyr | (1,414) | 195 |
| Cynnydd mewn credydwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 398 | 1,138 |
| Cynnydd / (Gostyngiad) mewn darpariaethau | 44 | (94) |
| Costau pensiwn llai cyfraniadau a dalwyd | 601 | 1,836 |
| **Addasiad ar gyfer gweithgareddau buddsoddi neu ariannu** | | |
| Incwm buddsoddi | (227) | (27) |
| Llog yn daladwy | 166 | 322 |
| Colled wrth werthu asedau sefydlog | 60 | 108 |
| **Llif arian net a gynhyrchir o weithgareddau gweithredu** | **1,391** | **3,965** |
| | | |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | |
| Elw o werthu asedau sefydlog | 2 | 5 |
